



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU



# Adroddiad Gwella Blynyddol gan gynnwys Asesiad Corfforaethol 2014

## Cyngor Dinas Caerdydd

Cyhoeddwyd: Medi 2014  
Cyfeirnod y ddogfen: 367A2014

# Ynglŷn ag Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilydwr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Llun y clawr (h) Kieran Ridley

Paratowyd yr Adroddiad Asesiad Corfforaethol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Samantha Spruce o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

<b>Adroddiad cryno, cyflwyniad a chynnig ar gyfer gwella</b>	<b>4</b>
<b>Adroddiad manwl</b>	
Mae trefniadau arwain a rheoli tameidiog wedi golygu nad yw perfformiad gwan mewn meysydd gwasanaeth allweddol wedi gwella	8
Mae ansefydlogrwydd gwleidyddol ac ansefydlogrwydd o safbwynt rheolwyr dros nifer o flynyddoedd wedi golygu nad yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddatblygu'r diwylliant a'r fframwaith sydd eu hangen i sicrhau gwelliant parhaus	8
Mae'r Cyngor wedi nodi beth yr hoffai ei gyflawni ar gyfer ei ddinasyddion ond ni fu ganddo ddulliau effeithiol o wneud hynny	10
Ni roddwyd rhai prosesau y bwriadwyd iddynt sicrhau trefniadau llywodraethu da ar waith ac nid yw'r prosesau gwneud penderfyniadau yn ddigon effeithlon na thryloyw	13
Er gwaethaf rhai newidiadau diweddar, nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau cyson yn y gorffennol	18
Er bod y Cyngor yn sicrhau bod ganddo gyllideb fantoledig, mae'r rhagolygon ar gyfer cyflawni'r arbedion arfaethedig yn 2014-15 yn ansicr ac mae'r lefelau cyllid a ddisgwyli'r yn y dyfodol yn golygu nad yw'r dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau yn gynaliadwy	31
Mae'r trefniadau adnoddau dynol corfforaethol yn seiliedig ar arfer cadarnhaol ond ni chânt eu rhoi ar waith yn gyson	34
Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd gwell o dechnoleg gwybodaeth a'i drefniadau rheoli gwybodaeth	37
Nid yw'r Cyngor yn rheoli ei asedau tir nac eiddo yn dda	39
Mae'r Cyngor yn cydweithio'n dda ag eraill a gall ddangos bod y canlyniadau i ddinasyddion wedi gwella	41
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 Statws yr adroddiad hwn	45
Atodiad 2 Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerdydd a Chyngor Caerdydd	46
Atodiad 3 Llythyr archwilio blynyddol	48
Atodiad 4 Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Caerdydd	51

# Adroddiad cryno, cyflwyniad a chynnig ar gyfer gwella

## Cyflwyniad

- 1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae **Atodiad 1** yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gwnaed y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae Cyngor Caerdydd (y Cyngor) yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, noda'r adroddiad gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.
- 2 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gyloch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o fewn awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau cynghorau o gynllunio gwelliant ac adrodd ar welliant,

y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y blynyddoedd rhwng asesiadau, byddwn yn monitro datblygiadau drwy ddiweddariadau ar gynnydd.

- 3 Canolbwyntiodd ein gwaith maes ar gyfer yr asesiad corfforaethol ar y graddau y mae trefniadau yn helpu i wella perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion. Ceisiodd yr asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: **'A all y Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion?'**

- 4 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymhell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk) neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Crynodeb

6 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac mae hefyd yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â chamau'r Cyngor i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, a'i gamau i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14. Gan ystyried hyn, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad canlynol: **Mae trefniadau arwain a rheoli tameidiog wedi golygu nad yw perfformiad gwan mewn meysydd gwasanaeth allweddol wedi gwella.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae ansefydlogrwydd gwleidyddol ac ansefydlogrwydd o safbwynt rheolwyr dros nifer o flynyddoedd wedi golygu nad yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddatblygu'r diwylliant a'r fframwaith sydd eu hangen i sicrhau gwelliant parhaus;
- mae'r Cyngor wedi nodi beth yr hoffai ei gyflawni ar gyfer ei ddinasyddion ond ni fu ganddo ddulliau effeithiol o wneud hynny;
- ni roddwyd rhai prosesau y bwriadwyd iddynt sicrhau trefniadau llywodraethu da ar waith ac nid yw'r prosesau gwneud penderfyniadau yn ddigon effeithlon na thryloyw;
- er gwaethaf rhai newidiadau diweddar, nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau cyson yn y gorffennol;
- er bod y Cyngor yn sicrhau bod ganddo gyllideb fantoledig, mae'r rhagolygon ar gyfer cyflawni'r arbedion arfaethedig yn 2014-15 yn ansicr ac mae'r lefelau cyllid a ddisgwyllir yn y dyfodol yn golygu nad yw'r dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau yn gynaliadwy;
- mae'r trefniadau adnoddau dynol corfforaethol yn seiliedig ar arfer cadarnhaol ond ni chânt eu rhoi ar waith yn gyson;
- mae'r Cyngor yn gwneud defnydd gwell o dechnoleg gwybodaeth a'i drefniadau rheoli gwybodaeth;

- nid yw'r Cyngor yn rheoli ei asedau tir nac eiddo yn dda; ac
  - mae'r Cyngor yn cydweithio'n dda ag eraill a gall ddangos bod y canlyniadau i ddinasyddion wedi gwella.
- 8 Ym mis Mai 2013, rhoddodd y Prif Weithredwr wybodaeth i'r Cabinet am y risgiau a'r heriau newydd a oedd yn wynebu'r Cyngor ymhob un o feysydd portffolio'r Cabinet ac yn dilyn hyn, comisynodd y Cabinet Adolygiad Cymheiriaid gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Tynnodd yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013, sylw at ddirywiad mewn systemau a gweithdrefnau dros nifer o flynyddoedd ynghyd â diffyg tryloywder o ran y wybodaeth a roddwyd i aelodau. Ym mis Hydref 2013, mabwysiadodd y Cabinet adroddiad yn disgrifio'r camau gweithredu yr oedd y Cabinet eisoes wedi'u rhoi ar waith er mwyn cyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael ag argymhellion yr Adolygiad Cymheiriaid a bod elfennau eraill o'r Adolygiad Cymheiriaid yr oedd angen gweithredu arnynt ar frys naill ai wedi cael sylw neu roedd camau priodol yn cael eu rhoi ar waith ar y pryd.
- 9 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn golygu na allwn gytuno bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr Adolygiad Cymheiriaid ac mae ein gwaith mwy diweddar yn dangos maint y problemau a ddisgrifiwyd yn yr Adolygiad Cymheiriaid fel problemau dwfn. Cydnabyddwn fod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, yn enwedig drwy sefydlu uwch dîm rheoli newydd, gwella'r wybodaeth ariannol am gyfarwyddiaethau a nodi £50 miliwn o arbedion posibl ar gyfer 2014-15. Fodd bynnag, erys risgiau sylweddol:
- Nodwyd cynigion i wneud arbedion, ond ni chaiff llawer o'r rhain eu hategu gan gynlluniau manwl ac mae methiant y Cyngor i gyflawni arbedion arfaethedig dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu ei bod yn ansicr o hyd p'un a fydd yn Cyngor yn cyflawni'r £50 miliwn o arbedion arfaethedig ar gyfer 2014-15.
  - Nid yw'r mesurau llwyddiant yn y Cynllun Corfforaethol diwygiedig yn ddigon clir o hyd a dim ond newydd ddechrau mae'r gwaith o ddatblygu cynlluniau cyflawni y gellir adolygu perfformiad yn eu herbyn.
  - Er bod rhai newidiadau'n cael eu gwneud i fanylion y fframwaith rheoli perfformiad presennol, nid oes gan y Cyngor o hyd wybodaeth amserol y gellir cael gafael arni'n hawdd i'w alluogi i reoli perfformiad yn effeithiol.
  - Ni all y Cyngor fod yn siŵr bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith. Nid yw'r rheolaethau yn nodi achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth nac yn delio â nhw'n effeithiol.
- 10 Mae'r arweinwyr newydd felly yn wynebu heriau sylweddol. Ym mis Medi 2013, nododd yr Adolygiad Cymheiriaid fod ei argymhellion yn rhai 'brys' a bod angen i'r Cyngor ymateb iddynt ar frys. Bydd angen i'r arweinwyr newydd flaenoriaethu'r hyn a wnânt a sicrhau eu bod yn ymateb gyda'r brys angenrheidiol.

- 11 O gofio'r cynnydd diweddar a'r tîm rheoli newydd a sefydlwyd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn teimlo ei bod yn briodol rhoi amser i'r prosesau a'r gweithdrefnau newydd ymsefydlu. Felly, byddwn yn cynnal arolygiad corfforaethol yn 2015 er mwyn penderfynu a lwyddwyd i ddatrys y problemau a nodir yn yr adroddiad hwn yn foddhaol.

### Cynnig ar gyfer gwella

C1 Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei Gynllun Datblygu Sefydliadol yn cael ei roi ar waith er mwyn datrys y materion amrywiol a nodir yn yr asesiad hwn.

- 12 Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor yn y cyfamser i sicrhau bod y gwelliannau allweddol y disgwyliwn iddo eu cyflawni erbyn yr arolygiad corfforaethol yn gwbl glir, a byddwn yn monitro gweithgarwch dros y misoedd nesaf fel ffordd o asesu cynnydd.

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau arwain a rheoli tameidiog wedi golygu nad yw perfformiad gwan mewn meysydd gwasanaeth allweddol wedi gwella

Mae ansefydlogrwydd gwleidyddol ac ansefydlogrwydd o safbwynt rheolwyr dros nifer o flynyddoedd wedi golygu nad yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddatblygu'r diwylliant a'r fframwaith sydd eu hangen i sicrhau gwelliant parhaus

- 13 Dros y pedair blynedd diwethaf, mae rheolaeth wleidyddol y Cyngor wedi newid, mae wedi cael tri arweinydd ac wedi wynebu her i'r arweinyddiaeth, mae wedi cael dau brif weithredwr ac wedi ailstrwythuro ei uwch dîm rheoli ddwywaith. Yn ystod y cyfnod dilynol o ansefydlogrwydd gwleidyddol ac ansefydlogrwydd o safbwynt rheolwyr, cafwyd adroddiadau am wasanaethau diffygiol a gwendidau mewn prosesau a gweithdrefnau.
- 14 Ar lefel wleidyddol, cafodd gweinyddiaeth newydd ei hethol ym mis Mai 2012. Ym mis Mai 2013, llwyddodd yr Arweinydd i oresgyn her i'w arweinyddiaeth. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cynyddodd aelodau'r Cabinet o naw i ddeg. Cynhaliwyd pleidlais ym mis Mawrth 2014 i ethol arweinydd newydd a phenododd yr arweinydd newydd Gabinet newydd yn cynnwys naw aelod.
- 15 Gwnaeth y gweinyddiaethau amrywiol newidiadau sylweddol ar lefel rheolwyr rhwng 2010 a 2012. Erbyn mis Ebrill 2012, roedd y weinyddiaeth wedi cyfyngu'r uwch dîm rheoli i'r Prif Weithredwr a phedwar uwch reolwr. Ym mis Mai 2012, mabwysiadodd y weinyddiaeth newydd, a oedd yn credu bod capasiti wedi lleihau gormod, strwythuro rheoli newydd a oedd yn

cynnwys Prif Weithredwr a deg uwch reolwr. Penodwyd aelodau o staff i'r strwythuro presennol rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2013. Ymddiswyddodd y Prif Weithredwr ym mis Mehefin 2013 ar ôl treulio tair blynedd yn y swydd a dechreuodd y Prif Weithredwr presennol ym mis Rhagfyr 2013.

- 16 Felly, cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn dilyn blynyddoedd o ansicrwydd o ran rheolwyr ac aelodau. Am iddo gael ei gynnal ym mis Mawrth 2014, aelodau'r Cabinet blaenorol a roddodd yr holl ymatebion y cyfeirir atynt drwy gyfweiliadau neu arolygon.
- 17 Er i'r grŵp Llafur sicrhau mwyafrif sylweddol yn etholiadau mis Mai 2012, cafodd llawer ohonynt eu hethol am y tro cyntaf ac felly er bod ganddynt alluoedd personol, nid oedd ganddynt unrhyw brofiad o reoli cyngor mawr. Er i'r aelodau a etholwyd gael hyfforddiant sylfaenol ar ôl etholiadau mis Mai, ni roddwyd unrhyw gymorth penodol i aelodau'r Cabinet i'w helpu i gyflawni eu rolau. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd swyddi gwag ar lefel uwch reolwyr wedi golygu nad oedd gan nifer o aelodau'r Cabinet uwch reolwyr a oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaethau yn eu portffolio.
- 18 Un o ganlyniadau'r ddwy ymdrech i ailstrwythuro rheolwyr yw bod nifer fawr o uwch reolwyr presennol y Cyngor wedi wynebu cyfnodau o ansicrwydd ynghylch eu rolau yn y dyfodol ddwywaith yn ystod y pedair blynedd diwethaf a bod staff yn gyffredinol wedi wynebu ansicrwydd ynghylch eu rolau a'u swyddi yn y Cyngor.



- 19 Yn ystod 2013, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ddau adroddiad yn nodi gwendidau a oedd yn deillio o ddiffyg blaenoriaethau clir, methiant i werthuso perfformiad yn briodol a threfniadau rheoli perfformiad annigonol. Ym mis Mai 2013, rhoddodd y Prif Weithredwr wybodaeth i'r Cabinet am y risgiau a'r heriau newydd a oedd yn wynebu'r Cyngor ymhob un o feysydd portffolio'r Cabinet ac yn dilyn hyn, comisynodd y Cabinet Adolygiad Cymheiriaid gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Tynnodd yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013, sylw at ddirywiad mewn systemau a gweithdrefnau dros nifer o flynyddoedd ynghyd â diffyg tryloywder o ran y wybodaeth a roddwyd i aelodau.

## Mae'r Cyngor wedi nodi beth yr hoffai ei gyflawni ar gyfer ei ddinasyddion ond ni fu ganddo ddulliau effeithiol o wneud hynny

- 20 Cafodd *Cynllun Corfforaethol 2014-2017* (y Cynllun) ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2014. Mewn ymateb i feirniadaeth yr Adolygiad Cymheiriaid a Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynllun blaenorol, lluniodd y Cyngor ddogfen fwy cryno er mwyn sicrhau ffocws cliriach ar flaenoriaethau.
- 21 Mae tair blaenoriaeth yn y Cynllun:
- datblygu economaidd i sbarduno twf a swyddi;
  - addysg a sgiliau ar gyfer pobl o bob oedran fel eu bod yn gwireddu eupotensial ac yn barod ar gyfer cyflogaeth o fewn economi Caerdydd a thu hwnt; a
  - chynorthwyo oedolion, plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed mewn cyfnodau o gynildeb.
- 22 Mae'r Cynllun yn cynnwys adrannau sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau portffolio'r cyn-Gabinet ac sy'n nodi beth mae'r cyfarwyddiaethau'n bwriadu ei wneud er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau.
- 23 Cyfeirir at 'gynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau' sy'n 'tanategu' y Cynllun ac a fydd yn cynnwys y manylion penodol am sut y caiff y blaenoriaethau eu cyflawni. Roedd cynlluniau cyflawni'r cyfarwyddiaethau yn cael eu datblygu adeg ein hasesiad. Os cânt eu datblygu yn ôl y bwriad a'u defnyddio i ysgogi perfformiad, dylent allu darparu'r fframwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni.
- 24 Ym mhob adran, mae'r Cynllun yn rhestru'r 'canlyniadau' yr hoffai eu gweld. Mae rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r ffordd y defnyddir y term hwn - mewn rhai achosion mae'r canlyniad yn glir, fel 'twf net o ran swyddi', mewn achosion eraill mesur a roddir nid canlyniadau, er enghraifft, 'amseroldeb yr asesiadau cychwynnol'. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y canlyniadau a nodir yn glir a'u bod wedi'u hategu gan ystod briodol o fesurau.
- 25 Mae amrywiadau yn y ffordd y mae'r cyfarwyddiaethau yn disgrifio canlyniadau, defnydd dryslyd o derminoleg ac aneglurder ynglŷn â'r gwelliant sydd ei angen mewn nifer o achosion yn golygu nad yw'r Cynllun yn ddogfen gyfeirio glir y gellir ei defnyddio i werthuso perfformiad yn y dyfodol. Byddwn yn trafod yr angen am well trefniadau rheoli perfformiad mewn adran arall.
- 26 Ar dudalennau 6 a 7 o'i adroddiad, disgrifiodd yr Adolygiad Cymheiriaid yn glir y sefyllfa sy'n wynebu'r Cyngor a chynigiodd ffyrdd y gallai'r Cyngor egluro ei weledigaeth a'i uchelgeisiau'n gliriach. Eglurodd fod rhai cynghorau yn Lloegr sydd wedi wynebu'r un heriau wedi llunio gweledigaethau newydd ar gyfer cynghorau cydweithredol er mwyn osgoi rhoi gwaith ar gontractau allanol ar raddfa fawr a thrwy hynny ddod yn ddarparwr gwasanaeth gweddilliol. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn gwybod yn glir sut y bydd yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol gan y bydd hyn yn effeithio ar ei benderfyniadau a'i ffyrdd disgwylidig o weithio. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y sefyllfa ariannol yn golygu na all barhau i weithio fel yr arferai wneud ond ar hyn o

bryd, nid oes ganddo weledigaeth glir o ran sut y gall ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

27 Mae'r Arweinydd newydd wedi cymryd camau i lunio gweledigaeth o'r math o gyngor y gallai Caerdydd fod, drwy ddatgan ei fwriad i agor trafodaethau ar yr opsiynau i ddarparu gwasanaethau yn y ddinas. Un opsiwn fyddai adeiladu ar waith rhwydwaith o gynghorau cydweithredol<sup>1</sup>. Mae hyn wedi arwain at lansio 'Sgwrs Caerdydd', sef cyfres bellgyrhaeddol o ddiwyddiadau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn amrywio o bartneriaid strategol i gymunedau a defnyddwyr gwasanaethau unigol, er mwyn ystyried yr heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus a'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r heriau hyn.

28 Mae'r Prif Weithredwr wedi llunio Cynllun Datblygu Sefydliadol, sef rhaglen tair blynedd i gyflawni'r weledigaeth honno. Cafodd y Cynllun ei fabwysiadu gan y Cabinet newydd ym mis Mai 2014. Caiff y Cynllun Datblygu Sefydliadol ei roi ar waith drwy gyfrwng rhaglen sy'n seiliedig ar ddeg egwyddor sy'n ymhelaethu ar yr hyn y bydd camau'r Cyngor i sefydlu Cyngor Cydweithredol yn ei olygu. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys canolbwyntio ar gydgyhyrchu gwasanaethau gyda'r bobl a'r cymunedau sy'n eu defnyddio, newid pwyslais y Cyngor i atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau allweddol, yn ogystal â darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy masnachol. Mae'r egwyddorion hefyd yn gosod sylfeini i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy blaengar,

gan newid i fod yn sefydliad sy'n 'comisiynu' yn hytrach na'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol ac sy'n barod i gydweithredu a mabwysiadu ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau.

29 Dywedodd y rhan fwyaf o aelodau'r uwch dîm rheoli wrthym eu bod yn gwybod pa ganlyniadau yr oedd y Cyngor yn ceisio eu cyflawni ac roedd 56 o'r 91 o reolwyr gweithredol a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo'r un peth. Yn yr un modd, dywedodd 20 o'r 28 o aelodau a ymatebodd eu bod yn gwybod yn glir beth mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni.

30 Cynhaliodd y Cyngor ei arolwg staff ei hun rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2013. Roedd y gyfradd ymateb o 14.5 y cant (2,046 o ymatebion gan 14,200 o gyflogeion) yn siomedig, sy'n awgrymu bod angen i'r Cyngor feddwl am ffyrdd gwell o gael barn ei staff. Gofynnodd y Cyngor am ateb i'r cwestiwn: 'Rwy'n deall sut rydw i'n cyfrannu at y cynllun corfforaethol'. Gofynnwyd i'r staff i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad gan ddefnyddio graddfa o 0 (anghytuno) i 10 (cytuno). Y canlyniad oedd 6.02 a ddisgrifiwyd fel sgôr gweddol ond bod lle sylweddol i wella.

31 Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi cydnabod bod angen defnyddio ffyrdd gwell o ymgysylltu â staff. Mae'r Cyngor wedi trefnu saith sioe deithiol i staff a fydd yn dechrau ym mis Mai 2014, er mwyn gwella gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu â staff wrth i'r arweinyddiaeth geisio rhoi ei syniadau newydd ar waith.

<sup>1</sup> Gnŵp o awdurdodau lleol Llafur blaenllaw yw'r Rhwydwaith Cynghorau Cydweithredol sy'n mabwysiadu ffyrdd newydd o gydweithio er mwyn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus lleol eu darparu yn eu hardaloedd [www.coopinnovation.co.uk](http://www.coopinnovation.co.uk).

- 32 Deallwn mai un o'r camau cyntaf a gymerwyd yn sgil y Rhaglen Datblygu Sefydliadol a'i hymrwymiad i ymgysylltu'n well â staff fu lansio rhaglen ymgysylltu â chyflogeion. Mae hyn wedi cynnwys newid pwyslais y trefniadau presennol, fel y Fforwm Uwch Reolwyr, er mwyn trafod yn fwy â rheolwyr, cael gwared ar y fformat briffio blaenorol a oedd yn mynd o'r brig i'r gwaelod a chyflwyno gweithgareddau ymgysylltu newydd, fel sioeau teithiol i gyflogeion sydd wedi denu dros 350 o gyflogeion. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu rhwydwaith o 'lysgenhadon' er mwyn helpu i sicrhau bod technegau ymgysylltu cynaliadwy ar waith ymhob cyfarwyddiaeth. Y nod yw rhoi arwydd clar o fwriad y Cyngor i ymgysylltu mewn ffordd wirioneddol a chynhyrchiol â'i gyflogeion.
- 33 Efallai mai'r ymateb mwyaf trawiadol i'r arolwg staff oedd yr ymateb i'r cwestiwn 'Ar raddfa o 0-10, pa mor debygol yw hi y byddech yn argymhell Cyngor Caerdydd fel cyflogwr i ffrind' a gafodd y sgôr isaf o 5.19. Ystyriwyd bod y sgôr hon hefyd yn weddol ond bod lle sylweddol i wella.
- 34 Mae canlyniadau ein cyfweliadau a'n grwpiau ffocws yn dangos bod ymwybyddiaeth gyffredinol ar lefel uwch o'r tri maes a nodwyd yn flaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ond prin yw'r gwaith cynllunio i gefnogi prosesau cyflawni. Awgryma arolwg y Cyngor fod angen mynd ati'n well i drosi blaenoriaethau yn gamau gweithredu er mwyn eu gwneud yn fwy ystyrion i'r staff sy'n gyfrifol am gyflawni.

## Ni roddwyd rhai prosesau y bwriadwyd iddynt sicrhau trefniadau llywodraethu da ar waith, gan arwain at brosesau gwneud penderfyniadau aneffeithlon a diffyg tryloywder

- 35 Dylai llywodraethu da arwain at reoli da, perfformiad da, stiwardiaeth dda dros arian cyhoeddus, cyswllt da â'r cyhoedd ac, yn y pen draw, ganlyniadau da (*The Good Governance Standard for Public Services*, OPM a CIPFA, 2005). Mae trefniadau llywodraethu da yn darparu fframwaith atebolrwydd i ddefnyddwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, ac o fewn y fframwaith hwnnw mae sefydliadau yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni amcanion penodol. Pan wnaethom adolygu trefniadau llywodraethu'r Cyngor, gwnaethom chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:
- Atebolrwydd: Rolau a chyfrifoldebau clir a thystiolaeth bod pobl yn cael eu dwyn i gyfrif yn eu rolau.
  - Effeithlonrwydd: Trefniadau sy'n helpu i wneud penderfyniadau amserol; cydgysylltu gweithgarwch; rheoli cyfarfodydd (gan gynnwys eitemau agenda a chanlyniad cyfarfodydd); cynnwys agendâu a diben adroddiadau; a'r amser a gaiff ei wario mewn cyfarfodydd.
  - Tryloywder: Argaeledd gwybodaeth, ac ansawdd a chydbwysedd gwybodaeth.

### Er bod llawer yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ni chaiff pobl eu dwyn i gyfrif am beidio â chyflawni eu cyfrifoldebau

- 36 Mae rôl/cylch gorchwyl pwyllgorau, paneli, rheolau sefydlog, rheoliadau ariannol a rôl swyddogion statudol wedi'u nodi yn y cyfansoddiad ac mae'r Cyngor wedi cytuno'n ddiweddar ar ddisgrifiadau rôl ar gyfer aelodau etholedig (yn seiliedig ar ddisgrifiadau rôl cyffredinol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Ers ymuno â'r Cyngor ym mis Awst 2013, mae'r Swyddog Monitro wedi dechrau gwella arferion llywodraethu: mae hyn wedi cynnwys adolygu'r cyfansoddiad a datblygu ffyrdd newydd o helpu aelodau i gyflawni eu rolau. Yn sgil hyn, mabwysiadodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd y Strategaeth Datblygu Aelodau.
- 37 Derbyniodd yr aelodau Cabinet y gwnaethom gyfweled â hwy eu bod yn atebol am gyflawni adrannau penodol o'r Cynllun Corfforaethol a gwnaethant ddangos gwybodaeth am eu portffolios a pharodrwydd i arwain wrth ateb cwestiynau yn ystod sesiynau craffu, er enghraifft. Fodd bynnag, nid oedd trefniant arfarnu ffurfiol ar gael ar gyfer aelodau'r Cabinet er mwyn helpu'r Arweinydd i asesu eu heffeithiolrwydd wrth gyflawni eu rolau.
- 38 Ar y cyfan, dangosodd aelodau'r pwyllgor craffu ddealltwriaeth o'u rolau a pharodrwydd i herio wrth graffu. Mae presenoldeb aelodau'r Cabinet yng nghyfarfodydd y pwyllgor craffu a'r ffaith bod aelodau craffu yn 'herio' aelodau'r Cabinet yn briodol yn atgyfnerthu atebolrwydd a

rolau aelodau anweithredol a gweithredol, uwch swyddogion a swyddogion craffu.

39 Gwnaethom hefyd gyfweld â chadeiryddion pwyllgorau (gan gynnwys cadeiryddion annibynnol). Roeddent yn teimlo'n glir ynglŷn â chylch gwaith eu pwyllgor eu hunain ond roedd diffyg eglurder yn gyffredinol am y ffordd roedd eu rolau penodol yn integreiddio ag ymdrechion i gyflawni blaenoriaethau neu'n helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cael ei lywodraethu'n dda. Roedd 27 o'r 28 o aelodau a ymatebodd i arolwg Swyddfa Archwilio Cymru naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau fel cynghorwyr.

40 Dywedodd 92 y cant o'r rheolwyr a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau, gwelwyd enghreifftiau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o amgylchiadau lle bu'n rhaid i'r tîm rheoli newydd gymryd camau unioni yn sgil methiant i gyflawni cyfrifoldebau'n briodol mewn rhai meysydd gwasanaeth:

- Yn ystod 2013, mewn ymateb i gŵyn o'r tu allan i'r sefydliad, ymchwiliodd y Cyngor i drefniadau caffael a rheoli contractau mewn nifer o feysydd gwasanaeth. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad o ystyried y diffyg cydymffurfiaeth eang ac endemig â Rheolau Sefydlog Contractau, Rheolau Caffael a pholisïau eraill y Cyngor a welwyd o fewn y meysydd gwasanaeth perthnasol, y byddai'n amhriodol cymryd camau disgyblu yn erbyn swyddogion

unigol. Cymerwyd camau dilynol, yn cynnwys hyfforddiant gorfodol i swyddogion y Cyngor. Mae'r anallu a nodwyd i gymryd camau disgyblu yn yr achos penodol hwn yn golygu bod y Cyngor wedi methu â dwyn neb i gyfrif am fethiant mor sylweddol.

- Ers mis Medi 2013, defnyddiwyd dull diwygiedig o reoli prosiectau mawr oherwydd methiannau'r trefniadau rheoli prosiect blaenorol. Er enghraifft, oherwydd gwaith rheoli prosiect gwael, bu'n rhaid tynnu cofrestrriad y cartref plant ar Heol Thornhill yn ôl, wyth mis yn unig ar ôl iddo agor. Yn 2011, arweiniodd nifer o wendidau yn y broses gwneud penderfyniadau at wario £1.67 miliwn ar ddatblygu adeilad nad oedd yn addas at y diben yn y pen draw. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos er bod canllawiau clir ar gael ynglŷn â sut y dylai prosiectau o'r fath gael eu trin, ni chawsant eu dilyn. Os cânt eu gweithredu yn ôl y bwriad, dylai'r trefniadau newydd ddatrys y broblem hon.
- Ym mis Mawrth 2014, nododd y gwasanaeth Archwilio Mewnol, er iddo nodi problemau â gordaliadau cyflogres yn 2009, fod problemau i'w gweld o hyd. Roedd y problemau'n golygu mai dim ond sicrwydd cyfyngedig y gellid ei roi ynglŷn â systemau yn dilyn yr archwiliad mwyaf diweddar. Nodwyd gordaliadau a oedd yn werth cyfanswm o £415,000 yn 2012-13. Er ei fod yn ymwybodol o'r angen i bennu cyfrifoldebau clir dros reoli prosesau'r gyflogres ers 2009, nid oedd y Cyngor, ym mis Mawrth 2014, wedi cymryd unrhyw gamau effeithiol.

41 Er bod yr enghreifftiau hyn yn dangos methiannau sylweddol o ran cydymffurfiaeth, rydym wedi trafod ein canfyddiadau â'r Cyngor a ddywedodd wrthym eu bod yn cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r diffygion. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cael adroddiadau rheolaidd ar gydymffurfiaeth â chontractau ac yn eu trafod. Ategwyd hyn gan gyfarfodydd unigol â chyfarwyddwyr a hyfforddiant i wella cydymffurfiaeth. Mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod cyfarwyddwyr a phenaethiaid ysgolion yn deall eu rolau a phwysigrwydd rhoi gwybod am adawyr yn amserol a chaiff hyn ei fonitro'n rheolaidd. Er bod y Cyngor wedi'i chael hi'n anodd cymryd camau disgyblu yn erbyn rhai aelodau o staff, mae'n ymchwilio i brosesau er mwyn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach er mwyn atal sefyllfaoedd o'r fath rhag codi eto yn y dyfodol. Yn ystod 2013-14, gwnaeth y Cyngor ddisgyblu 196 o aelodau o staff a chafodd 22 o'r rhain eu diswyddo, sy'n awgrymu y cymerwyd camau cadarn lle bo angen.

### Ceir enghreifftiau o aelodau etholedig a lleyg sy'n cyflawni'u cyfrifoldebau'n dda, ond mae systemau aneffeithlon yn arafu prosesau gwneud penderfyniadau a'r ystyriaeth a roddir i argymhellion craffu

- 42 Mae fframwaith gweithredol a chraffu'r Cyngor yn glir. Mae'n cynnwys y Cyngor, y Cabinet, pwyllgorau craffu, y Pwyllgor Archwilio a nifer o bwyllgorau eraill sy'n delio â materion fel cynllunio a thrwyddedu.
- 43 Ceir cryn dipyn o gymorth swyddogion pwrpasol ar gyfer craffu ac mae uwch swyddogion (gan gynnwys y Prif Weithredwr) yn mynychu cyfarfodydd craffu yn rheolaidd.
- 44 Roedd cyfarfodydd y pwyllgorau craffu y gwnaethom eu harsylwi yn drefnus ac roedd yr ystafell wedi'i threfnu'n glir a oedd yn helpu i atgyfnerthu atebolrwydd a phriod rolau'r aelodau. Roedd cadeiryddion y pwyllgorau yn sicrhau bod aelodau yn trafod ac yn herio'n briodol. Roedd aelodau'r pwyllgorau craffu yn teimlo bod eu gwaith yn werthfawr ac wrth arsylwi, gwelsom her briodol.
- 45 Mae rhaglenni gwaith craffu ar gyfer 2013-14 yn cynnwys ymrwymiad i i gynnal nifer o adolygiadau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen manwl (lluniwyd 15 o adroddiadau gan grwpiau gorchwyl a gorffen yn 2012-13). Roedd yr aelodau y gwnaethom siarad â hwy yn teimlo bod craffu yn ddefnyddiol er mwyn nodi gwelliannau posibl.

46 Gwnaethom adolygu agendâu'r Cabinet, y pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Archwilio dros y chwe mis diwethaf. Gwelsom nifer o wendidau. Gwelsom enghreifftiau o adroddiadau hir, nad oedd eu diben bob amser yn glir, yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod dan sylw; gwelsom agendâu â gormod o eitemau i'w trafod yn yr amser a oedd ar gael; gwelsom yr un adroddiadau'n cael eu cyflwyno i bwyllgorau gwahanol; a gwelsom adroddiadau manwl yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth yn unig.

47 Cyfeiriodd yr aelodau o'r Cabinet blaenorol y gwnaethom gyfnewid â hwy at agendâu a oedd yn rhy hir. Gwnaethant siarad am ddiffyg consensws ynglŷn â pha gyfrifoldebau i'w dirprwyo i aelodau unigol y Cabinet. Ar adeg yr asesiad hwn, roedd 15 o adroddiadau craffu yn aros am ymateb gan y Cabinet, saith ohonynt o'r cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Medi 2013, pedwar o'r cyfnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2013 a phedwar o'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2014. Dywedodd yr aelodau craffu y gwnaethom siarad â hwy eu bod yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r amser y mae'n ei gymryd i'r Cabinet ystyried eu hadroddiadau.

48 Gofynnodd ein dau arolwg i reolwyr ac aelodau etholedig am eu barn ar effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu. Teimlai tua 57 y cant o reolwyr fod y broses graffu yn helpu i wella canlyniadau, ond roedd 27 y cant yn anghytuno. Fodd bynnag, nid oedd tua hanner yr aelodau a ymatebodd yn teimlo bod y Cyngor yn defnyddio'r broses graffu'n effeithiol.

49 Gwnaethom hefyd ofyn i aelodau a oedd y trefniadau a oedd ar waith iddynt herio materion allweddol yn effeithiol; teimlai 20 allan o'r 28 o aelodau nad oeddent yn effeithiol ac nid oedd 18 ohonynt yn credu bod aelodau yn helpu'r Cabinet i ddatblygu polisiau yn effeithiol. Nid yw agendâu gorlawn a diffyg eglurder ynglŷn â pham bod eitemau'n cael eu trafod wedi helpu chwaith.

50 Er inni ganfod bod lefel uchel o gymorth swyddogion ar gael ar gyfer gwaith craffu, roedd rhai pryderon yn dod i'r amlwg fod lleihad mewn adnoddau yn amharu ar gyflymder/ansawdd gwaith craffu, ac mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal llai o gyfarfodydd cyngor yn 2014-15 oherwydd arbedion cyllidebol arfaethedig.

### Mae trefniadau i ddarparu cofnodion cyhoeddus o gyfarfodydd yn wan, sy'n arwain at ddiffyg tryloywder o ran penderfyniadau

51 Yn ystod yr asesiad hwn, aethom ati i ddod o hyd i wybodaeth ar wefan y Cyngor gan ddisgwyl dod o hyd i wybodaeth hygyrch am gyfarfodydd, yr adroddiadau a gyflwynwyd a'r penderfyniadau a wnaed.

52 Mae cofrestr o benderfyniadau a chofnodion yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar gyfer holl benderfyniadau'r cabinet ond gwnaethom ganfod nad oedd rhai cofnodion o benderfyniadau a gwybodaeth ategol ar gael ar wefan y Cyngor. Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2014, er enghraifft:

- roedd pedwar pwyllgor craffu'r Cyngor wedi cyfarfod ar 16 achlysur;



- mae cofnodion chwech o'r cyfarfodydd hynny ar gael ar y wefan;
  - nid oes cofnodion ar gael ar gyfer 10 o'r cyfarfodydd hynny; ac
  - nid oes cofnodion ar gael ar gyfer dau gyfarfod craffu yn ymwneud â chyllideb 2014-15 a'r Cynllun Corfforaethol drafft, sy'n golygu nad oes cofnod cyhoeddus ar gael o'r rôl y gwnaeth aelodau ei chwarae wrth ystyried cynigion yng nghyfarfodydd craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Amgylchedd.
- 53 Gwelsom broblemau eraill tebyg a wnaeth inni ddod i'r casgliad bod trefniadau cadw cofnodion a diweddarau'r wefan yn anghyson; er enghraifft, er bod cofnodion ar gael ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ar 7 Ionawr a 13 Chwefror 2014, nid oedd cofnodion ar gael ar gyfer y cyfarfodydd ar 29 Hydref 2013 a 26 Tachwedd 2013.
- 54 Nid oedd y gwe-dudalennau craffu yn cael eu diweddarau, er enghraifft, ni lwyddwyd i ddod o hyd i flaengynlluniau gwaith pwyllgorau am y flwyddyn gyfan ar y wefan, ni chaiff y 'blaengynllun' craffu ei ddiweddarau bob amser ac nid oedd adroddiadau blynyddol y pwyllgorau craffu ar gyfer 2012-13 wedi'u hychwanegu at y wefan sawl mis ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.
- 55 Dywedodd 11 o'r 28 o gynghorwyr a ymatebodd i'n harolwg ei bod hi'n anodd darganfod pa benderfyniadau allweddol sydd wedi cael eu gwneud. Dywedodd un: 'Rwy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i unrhyw benderfyniadau allweddol yn syth. Dim ond pan fo penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud neu ar fin cael ei roi ar waith rydym ni'n cael gwybod. Mae angen ymgynghori â ni ymlaen llaw a rhoi cyfle inni gyfrannu. Hefyd, rwyf wedi gofyn am ffigurau ond heb eu cael eto ac oni bai fy mod yn barod i gyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth, efallai na welaf y ffigurau byth.'
- 56 Mae *Adroddiad Cwynion Blynyddol 2012-13* (a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2013) yn cynnig rhywfaint o esboniad dros lefelau'r cwynion mewn meysydd gwasanaeth amrywiol a'u hachosion. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, caiff canlyniadau'r weithdrefn i drin y gŵyn eu cyflwyno mewn ffordd gadarnhanol heb esboniad digonol o'r rhesymau dros y gŵyn na'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Ni cheir fawr ddim esboniad bod y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i ddeall tueddiadau/cymryd camau unioni er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau/profiadau cwsmeriaid.

## Er gwaethaf rhai newidiadau diweddar, nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau cyson yn y gorffennol

### Mae dull newydd o werthuso a rheoli perfformiad yn dod i'r amlwg

- 57 Roedd gan y Cyngor broses hirsefydledig o ddarparu'r hyn a elwid ganddo yn adroddiadau 'cyflawni a pherfformiad' a oedd yn cwmpasu cyfnod o dri mis. Ym mis Medi 2013, dywedodd yr Adolygiad Cymheiriaid fod gan y Cyngor lawer o ddata ond nad oedd ganddo lawer o wybodaeth a bod angen trawsnewid y systemau a oedd ar waith ar y pryd. Erbyn mis Mawrth 2014, gwnaed cynnydd cyfyngedig o ran newidiadau perfformiad. Serch hynny, mae'r Arweinydd presennol a'r Prif Weithredwr wedi cydnabod bod angen gwella trefniadau, a hynny o ran natur y wybodaeth a ddarperir a'r angen i ddarparu mwy o dryloywder a her. Yr arwyddion cynnar yw bod y newidiadau angenrheidiol wedi'u nodi a bod cynlluniau newid yn dechrau cael eu rhoi ar waith.
- 58 Mae'r rhaglen newid sefydliadol a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 15 Mai 2014 yn cydnabod bod angen sefydlu system sy'n rhoi sicrwydd i aelodau am ansawdd cyffredinol gwasanaethau. Ni chyflawnwyd hyn gan ymdrechion blaenorol i deilwra'r system bresennol. Yn ôl y Cyngor, nod y trefniadau newydd yw sicrhau newid drwy drawsnewid y diwylliant perfformiad yn sylfaenol, fel bod trafodaethau agored a gonest am faterion perfformiad yn dod yn gyffredin ac yn cael eu defnyddio i lywio gwelliannau penodol.

### Yn y gorffennol, nid oedd trefniadau rheoli perfformiad wedi llywio gwelliant yn gyson ac mae perfformiad yn gymharol wan mewn dwy allan o dair blaenoriaeth y Cyngor

- 59 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lunio adroddiadau ar gyfres gyffredin o ddangosyddion er mwyn gallu cymharu perfformiad meysydd gwasanaeth allweddol ledled Cymru. Pennwyd 30 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol sy'n ymdrin â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ym maes addysg, gofal cymdeithasol a rheoli gwastraff. Mae 14 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus ar gael hefyd a ddewiswyd i adlewyrchu materion pwysig fel cymorth i ofalwyr, presenoldeb yn yr ysgol a chyflwr priffyrdd.
- 60 Dangosodd data 2012-13 fod y Cyngor ymhlith y pum perfformiwr gorau ar gyfer chwech o'r 30 o Ddangosyddion a'i fod ymhlith y pum perfformiwr gwaethaf mewn 12 o'r 30 o Ddangosyddion. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau i wneud gwelliannau ym maes rheoli gwastaff a darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl, ond mae wedi aros ymhlith y perfformwyr gwaethaf ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol (dwy o'i flaenoriaethau). Mae'r Cyngor ymhlith y pum perfformiwr gwaethaf ar gyfer saith o'r 14 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus ac nid yw ymhlith y pum perfformiwr gorau ar gyfer unrhyw un o'r dangosyddion. Er y bu gwelliant mewn chwe maes a fesurir

gan y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn 2012-13 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gwaethygodd pump ohonynt.

61 Prif flaenoriaethau'r Cyngor yw:

- datblygu economaidd i sbarduno twf a swyddi;
- addysg a sgiliau ar gyfer pobl o bob oedran fel eu bod yn gwireddu eu potensial ac yn barod ar gyfer cyflogaeth o fewn economi Caerdydd a thu hwnt; a
- chynorthwyo oedolion, plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed mewn cyfnodau o gynildeb.

62 Mae'r data sydd ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol ac addysg yn dangos bod perfformiad mewn dangosyddion allweddol yn wan o gymharu â gweddill Cymru ac mai ychydig o welliant cymharol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

**Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran gofal cymdeithasol ac nid yw ei berfformiad yn cymharu'n dda â chynghorau eraill yng Nghymru**

63 Mae **Arddangosion 1 i 3** yn cymharu perfformiad y Cyngor o ran dangosyddion gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru â chynghorau eraill yng Nghymru.


64 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos bod yn rhaid i bobl hŷn aros cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty i ofal mwy priodol. Nes 2009, roedd y sefyllfa wedi bod yn gwella. Fodd bynnag, ers 2009-10, mae perfformiad Caerdydd wedi gwaethygu gyda'r gyfradd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac, yn 2012-13, roedd pobl hŷn yng Nghaerdydd yn gorfod aros llawer mwy cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty o gymharu â chyfartaledd Cymru.

65 Mae nifer y bobl yn ein cymdeithas sydd ag anghenion iechyd neu ofal yn cynyddu. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos bod y Cyngor yn rhoi cymorth i lai o bobl hŷn yn y gymuned o gymharu â chyfartaledd Cymru, a allai awgrymu nad yw pobl ag anghenion iechyd neu ofal yng Nghaerdydd yn cael eu cyrraedd.

66 Serch hynny, mae'r Cyngor yn parhau i berfformio'n dda o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ac mae wedi lleihau nifer y diwrnodau a gymerir i ddarparu'r grant hwn yn gyson. Mae **Arddangosyn 3** yn cymharu perfformiad Caerdydd â chyfartaledd Cymru.

**Arddangosyn 1: Cyfradd y boblogaeth a brofodd oedi wrth drosglwyddo eu gofal am resymau cymdeithasol 2005-06 i 2012-13**


Mae pobl hŷn yng Nghaerdydd yn aros yn hwy am ofal priodol ac mae'r achosion o oedi yn cynyddu.



*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Strategol Cenedlaethol*

### Arddangosyn 2: Cyfradd y bobl hŷn sy'n cael cymorth yn y gymuned 2005-06 i 2012-13

Mae perfformiad Caerdydd dros yr wyth mlynedd diwethaf wedi bod dipyn yn is na chyfartaledd Cymru.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Strategol Cenedlaethol

### Arddangosyn 3: Cymhariaeth o berfformiad darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yng Nghymru

Mae'r Cyngor ymhlith y perfformwyr gorau yng Nghymru.

	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13
Caerdydd (diwrnodau calendr)	189	307	220	155
Safle yng Nghymru	1af	7fed	4ydd	2il

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Strategol Cenedlaethol

- 67 Cyhoeddodd AGGCC Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/13 (y Gwerthusiad) ar y Cyngor ar 28 Hydref 2013. Mae copi o'r adroddiad ar gael yn [www.cssiw.org.uk/our-reports/local-authority-report/2013/cardiff-annual-evaluation/?skip=1&lang=cy](http://www.cssiw.org.uk/our-reports/local-authority-report/2013/cardiff-annual-evaluation/?skip=1&lang=cy).
- 68 Mae'r Gwerthusiad yn nodi'r meysydd allweddol lle gwnaed cynnydd yn 2012-13 a meysydd i'w gwella yn y dyfodol o ran gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant. Dyma'r crynodeb: 'Mae gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd yn parhau i wynebu galw a heriau sylweddol o ran diwallu anghenion poblogaeth amrywiol. Cafwyd cyfleoedd i ddatblygu yn sgil colli uwch reolwyr a'r defnydd o drefniadau dros dro ar adeg pan oedd yr adran yn mynd drwy gyfnod o newid. Fodd bynnag, creodd hyn heriau o ran y ddarpariaeth o wasanaethau cymdeithasol o ddydd i ddydd hefyd. Mae gwaith partneriaeth gyda Chyngor Bro Morgannwg yn dal i fod yn elfen gref o'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae trefniadau i sefydlu bwrdd diogelu plant ar y cyd wedi datblygu yn ystod y flwyddyn a rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn amlygu amrywiaeth o lwyddiannau a datblygiadau o ran y ddarpariaeth o wasanaethau. Mae'n adroddiad cadarnhaol sy'n cyfeirio at welliannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a gwella yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant,

ond nid yw'n adlewyrchu'n llawn y peryglon sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau ac ailstrwythuro gwasanaethau mewn meysydd allweddol.'

### Mae perfformiad ym maes addysg yn parhau i fod yn gymharol wan ac mae cyfran uchel o blant sy'n derbyn gofal yn gadael yr ysgol heb gymhwyster

- 69 Ym mis Ionawr 2011, barnodd Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, fod gwasanaeth addysg y Cyngor yn 'ddigonol' a bod rhagolygon 'digonol' ar gyfer gwella. Roedd Estyn o'r farn bod angen i'r Cyngor gael ymweliadau monitro pellach er mwyn arolygu cynnydd, a sefydlodd y cyn-Brif Weithredwr a'r weinyddiaeth wleidyddol Fwrdd Gwella y bwriadwyd iddo ddatrys problemau a llywio gwelliant. Ym mis Chwefror 2014, cynhaliodd arolygwyr Estyn eu hymweliad monitro olaf ac ar 28 Mawrth, gwnaethant ysgrifennu at y Prif Weithredwr newydd gyda'r canlyniadau.
- 70 Er iddo gydnabod effaith trosiant sylweddol mewn uwch swyddi rheoli, gan gynnwys cyfnodau lle nad oedd unrhyw un mewn swyddi allweddol, daeth adroddiad diweddaraf Estyn i'r casgliad nad yw'r 'rhan fwyaf o'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi gwella'n ddigon da' yn ystod y tair blynedd ers yr arolygiad gwreiddiol. Dywedodd yr adroddiad hefyd, 'Nid yw prosesau rheoli perfformiad wedi bod yn ddigon cadarn i sicrhau bod cynnydd addas wedi'i wneud o ran bodloni amcanion

yr awdurdod. Mae hyn yn amlwg drwy'r amrywiaethau mawr mewn perfformiad yn ysgolion yr awdurdod a'r gyfran gymharol uchel o ysgolion y barnwyd bod angen gweithgarwch dilynol ynddynt. Mae'r awdurdod yn casglu ystod eang o ddata i olrhain cynnydd gyda mentrau penodol. Fodd bynnag, nid yw wedi mynd ati'n gyson i ddadansoddi ac arfarnu'r wybodaeth hon

yn ddigon cadarn i fesur cynnydd yn gywir, i nodi'r meysydd allweddol hynny y mae angen eu gwella ac i dargedu mentrau'n effeithiol.'

- 71 Mae **Arddangosion 4 i 7** yn cymharu perfformiad y Cyngor o ran dangosyddion addysg â Chynghorau eraill yng Nghymru.

#### Arddangosyn 4: Deilliannau addysg yng Nghyfnod Allweddol 2<sup>2</sup>

Mae Caerdydd wedi sicrhau rhywfaint o welliant yn ei ddeilliannau cyffredinol yng nghyfnod allweddol 2, ond mae cyfradd y gwelliant yn is na chyfartaledd cyffredinol cynghorau Cymru.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Strategol Cenedlaethol EDU/003

<sup>2</sup> Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni Dangosydd y Pwnc Craidd, yn ôl Asesiad yr Athro.

### Arddangosyn 5: Deilliannau addysg yng nghyfnod allweddol 3<sup>3</sup>

Mae Caerdydd wedi sicrhau rhywfaint o welliant yn ei ddeilliannau cyffredinol yng Nghyfnod Allweddol 3, ond mae cyfradd y gwelliant yn is na chyfartaledd cyffredinol cyngorau Cymru.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Dangosydd Strategol Cenedlaethol EDU/011

3 Y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.



### Arddangosyn 6: Disgyblion sy'n gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau

Mae Caerdydd wedi sicrhau rhywfaint o welliant yng nghanran y disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster. Mae'r duedd gwella yn gyflymach na chyfartaledd pob Cyngor yng Nghymru.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Strategol Cenedlaethol

### Arddangosyn 7: Plant sy'n derbyn gofal sy'n gadael ysgol heb gymhwyster

	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13
Caerdydd	7.69%	14.29%	11.1%	23.6%
Cyfartaledd Cymru	6.36%	6.48%	3.48%	5.72%

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru

72 Er y bu rhywfaint o welliant yng nghanran yr holl ddisgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster, ni welwyd yr un gwelliant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd.

**Mae'r Cyngor yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n helpu i leihau'r niferoedd cymharol uchel o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**

73 Ers etholiadau mis Mai 2012, mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Dangosir hyn mewn amrywiaeth o ddogfennau strategol ac mae'n llywio gweithgarwch mewn nifer o feysydd gwasanaeth. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd gostyngiadau sylweddol yng Nghaerdydd yng nghyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ac mae swyddogion wedi priodoli hyn i weithgareddau sy'n

cynnwys: codi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4; cynnig cwricwlwm ehangach â mwy o opsiynau galwedigaethol a llwybrau datblygu; a defnyddio hyfforddwyr dysgu. Cydnabu strategaeth 2013 y Cyngor y bydd angen iddo ostwng y gyfran yn gyflymach er mwyn gwireddu ei weledigaeth y bydd pob person ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

74 Mae data yn dangos i ganran y rhai a adawodd ysgol ym mlwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET yng Nghaerdydd ostwng o 8.9 y cant yn 2009 i 6.7 y cant yn 2012. Disgwyllir cael data ar gyfer 2013 ym mis Mai 2014.

**Arddangosyn 8: Canran y rhai sy'n gadael ysgol ym mlwyddyn 11 (ystod oedran 16-18) y gwyddys eu bod yn NEET yng Nghaerdydd a chyfartaledd Cymru**

Mae canran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET wedi gostwng yng Nghaerdydd ond mae'n dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru.

	2009	2012
Caerdydd	8.9%	6.7%
Cyfartaledd Cymru	5.7%	4.2%

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Gyrfa Cymru a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru, 2012*


- 75 Yn ystod misoedd Mai a Gorffennaf 2013, ymwelodd tîm o Swyddfa Archwilio Cymru ag wyth cyngor yng Nghymru (gan gynnwys Caerdydd) fel rhan o astudiaeth genedlaethol o bobl ifanc sy'n NEET. Gwelsom amrywiaeth o arferion cadarnhaol yn y Cyngor ond nodwyd hefyd fod angen i'r Cyngor, fel llawer o rai eraill, atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau bod dealltwriaeth gyson ymhob rhan o'r Cyngor o'r materion sylfaenol a sut y dylai rolau a chyfrifoldebau gael eu cyflawni er mwyn bodloni amcanion addysg a hyfforddiant.
- 76 Er i ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gyfan ddangos y bu gostyngiad yng nghyfran y bobl ifanc 16 oed sy'n NEET rhwng 2009 a 2012, cynyddodd cyfran y bobl ifanc 18 oed sy'n NEET o 17.9 y cant i 20.1 y cant. Fel rhan o'i strategaeth barhaus, mae angen i'r Cyngor, fel y rhan fwyaf o gynghorau eraill, gael dealltwriaeth glir o'i nodau ac amcanion ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed.

## Mae perfformiad o ran rheoli gwastraff wedi gwella

- 77 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynghorau helpu dinasyddion i ailgylchu gwastraff, ac yn casglu gwybodaeth am gyfraddau ailgylchu yn ogystal â gwybodaeth am y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir gan wahanol gynghorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau i bob cyngor yng Nghymru i ailgylchu mwy o wastraff ac i leihau faint o wastraff a anfonir i safle tirlenwi. Mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal amrywiaeth o fentrau er mwyn gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Llwyddodd i gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 52 y cant yn 2013.

### Arddangosyn 9: Perfformiad o ran rheoli gwastraff yng Nghaerdydd

Mae mentrau rheoli gwastraff wedi bod yn ysgogi gwelliant: caiff llai o wastraff ei anfon i safleoedd tirlenwi a chaiff mwy o wastraff ei ailgylchu.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru: Ystadegau Cymru

## Nododd Comisiynydd y Gymraeg welliannau arfaethedig gan y Cyngor

- 78 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 79 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.
- 80 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i ddatblygu cronfa ddata gorfforaethol integredig er mwyn cofnodi dewis iaith preswylwyr y ddinas ers tro. Nid yw'r Cyngor wedi cwblhau'r gwaith eleni ond mae'r prosiect wedi symud yn ei flaen ar ôl ymweld ag awdurdod lleol sydd eisoes wedi llwyddo i ddatblygu cronfa ddata gynhwysfawr. Bydd cwblhau'r gwaith hwn yn flaenoriaeth i'r Cyngor dros y cyfnod nesaf. Mewn ymgais i hyrwyddo'r Gymraeg yn y brifddinas, mae'r Cyngor yn trefnu cynhadledd o'r enw

'Caerdydd: Dinas Ddwieithog' i ddathlu'r Gymraeg a dechrau'r broses o greu cynllun gweithredu ar gyfer y Gymraeg. O ganlyniad i ailstrwythuro mewnol, bu oedi cyn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff y Cyngor. Y bwriad yw y bydd yr aelodau staff hynny sydd eisoes wedi cael eu hyfforddi i ddarparu hyfforddiant mewnol yn dechrau ar eu gwaith yn fuan. At hynny, caiff modiwlau e-ddysgu eu cyflwyno er mwyn atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i hyfforddi staff.

## Mae adroddiadau perfformiad corfforaethol blaenorol wedi methu ag ysgogi gwelliant

- 81 Gwnaed rhai newidiadau i gynnwys yr adroddiad cyflawni a pherfformiad ar gyfer y trydydd chwarter (a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013) a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 13 Mawrth 2014. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn dal i gynnwys dros 90 o ddangosyddion perfformiad ac nid oedd unrhyw gysylltiadau rhwng perfformiad, ansawdd/gweithgarwch gwasanaethau a chyllid. Caiff yr adroddiadau hyn eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, ond nid ydynt yn cynnwys fawr ddim gwybodaeth sy'n eu galluogi i asesu ansawdd gwasanaethau. Fel arfer, cânt eu cyflwyno rhyw bedwar i chwe mis ar ôl diwedd y cyfnod y maent yn ymdrin ag ef, sy'n golygu nad oes fawr ddim gwerth iddynt fel ffordd o reoli perfformiad.
- 82 Gwnaethom adolygu'r adroddiadau cyflawni a pherfformiad a gwnaethom hefyd asesu ansawdd asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad yn 2012-13. Cyhoeddodd y Cyngor ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol*

ar gyfer 2012-13 ym mis Hydref 2013.

Er iddo gyflwyno data a oedd yn golygu bod modd ei gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys yr un gwendidau a nodwyd gennym y flwyddyn flaenorol, sef nad oedd yn gwerthuso perfformiad yn gywir drwy dynnu sylw at berfformiad llai ffafriol a pherfformiad sy'n gwella.

83 Mae ein cyfweiliadau a'n hadolygiadau o gofnodion cyfarfodydd yn dangos bod aelodau wedi bod yn ceisio gwella trefniadau adrodd ar berfformiad ers tro. Ar adegau, roedd yn ymddangos fel pe bai'r Cyngor yn cynllunio newidiadau manwl na chawsant eu gweithredu, er enghraifft, ym mis Mai 2011, lluniwyd strategaeth Rheoli Perfformiad ddrafft ond ni luniwyd fersiwn terfynol ac ni roddwyd y strategaeth ar waith. Yn y gorfennol aethpwyd ati i wneud newidiadau bach i'r trefniadau adrodd presennol nad ydynt wedi datrys y gwendidau sylfaenol. O ganlyniad, nid oes gan y Cyngor wybodaeth berthnasol ac amserol o hyd i'w alluogi i asesu ansawdd gwasanaethau.

84 Mae fframwaith rheoli perfformiad newydd y Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid sicrhau newid drwy drawsnewid y diwylliant perfformiad yn sylfaenol, fel bod trafodaethau agored a gonest am faterion perfformiad yn dod yn gyffredin ac yn cael eu defnyddio i lywio gwelliannau penodol. Ymhlith y newidiadau a wnaed ers mis Chwefror 2014 mae'r canlynol:

- mae Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaethau wedi'u rhoi ar waith ar draws yr awdurdod, sy'n cynnwys cerrig milltir clir a dangosyddion perfformiad

y gellir eu defnyddio i fonitro camau i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol;

- mae cylchoedd monitro ac adrodd ar gyfer gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau a chyllid wedi'u cysoni fel bod gan y Cyngor ddarlun gwell o'i berfformiad cyffredinol;
- dechreuwyd cynnal cyfarfodydd herio perfformiad yr Uwch Dîm Rheoli bob mis;
- dechreuwyd cynnal cyfarfodydd herio perfformiad ar y cyd y Cabinet a'r Uwch Dîm Rheoli bob mis;
- sefydlwyd trefniadau i graffu ar wybodaeth am berfformiad cyn i'r Cabinet ei hystyried yn ffurfiol;
- sefydlwyd Cymorth Gwella Carlam – dan arweiniad y Prif Weithredwr – ar gyfer gwasanaethau penodol, gan gynnwys Gwasanaethau Plant ac Addysg, sy'n defnyddio cymysgedd o gymorth mewnol a chymorth a her gan gymheiriaid allanol;
- sefydlwyd Fforwm Her yn cynnwys uwch Aelodau a swyddogion, yn ogystal â chymorth gan gymheiriaid allanol, er mwyn profi a herio cynnydd y Cyngor ar ei daith wella;
- rhoddwyd rhaglen fawr ar waith i ymgysylltu â staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r daith wella a'u hannog i gyfrannu ati; ac
- mae'r broses Adolygu a Datblygu Perfformiad Personol wedi'i symleiddio ac eglurwyd yr angen am gydymffurfiaeth.

## Er bod y Cyngor yn sicrhau bod ganddo gyllideb fantoledig, mae'r rhagolygon ar gyfer cyflawni'r arbedion arfaethedig yn 2014-15 yn ansicr ac mae'r lefelau cyllid a ddisgwylir yn y dyfodol yn golygu nad yw'r dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau yn gynaliadwy

### Mae gwybodaeth am gyllidebau gwasanaethau wedi gwella ac mae aelodau yn ceisio cael eu cynnwys ar gam cynharach yn y broses o arfarnu opsiynau cyllidebol

- 85 Wrth gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2014-15, a ddechreuodd yn ystod haf 2013, lluniodd tîm cyllid y Cyngor ddogfennau briffio cyllidebol (gan gynnwys proffiliau am wasanaethau penodol) ar gyfer yr uwch dîm rheoli newydd. Rhannwyd y wybodaeth hon ag aelodau'r Cabinet blaenorol hefyd yn ystod haf 2013 a mynychodd rheolwyr cyllid gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ym misoedd Hydref/Tachwedd 2013 er mwyn egluro'r wybodaeth a oedd ar gael bryd hynny. Cafodd y dogfennau hyn eu cynnwys wedyn o fewn y papurau a anfonwyd at yr holl aelodau ym mis Chwefror 2014 wrth i'r gyllideb derfynol gael ei llunio ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am gyllidebau gwasanaethau. Roeddent yn nodi'r prif feysydd gwariant a'r agweddau hynny ar gyllidebau a gaiff eu 'diogelu' i raddau - naill ai oherwydd gofynion Llywodraeth Cymru neu benderfyniadau polisi'r Cyngor.
- 86 Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddodd y Cyngor ei *Adroddiad Ymgysylltu o ran y Gyllideb*, sef dogfen fanwl, 56 o dudalennau, a oedd yn esbonio'r ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd ers mis Gorffennaf 2013 a'r dylanwad a gafodd yr ymarferion hyn ar y blaenoriaethau a bennwyd. Yn ogystal

â briffio'r Cabinet, roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) wedi briffio arweinwyr y grwpiau gwleidyddol eraill a'u llfarwyr ar y gyllideb.

- 87 Rhwng 10 a 13 Chwefror 2014, gofynnwyd i bwyllgorau craffu'r Cyngor ystyried y cynigion cyllidebol. Mabwysiadodd y Cyngor y gyllideb ar 27 Chwefror. Roedd yr holl aelodau y gwnaethom siarad â hwy yn teimlo na chaniatawyd digon o amser i graffu ar y cynigion yn briodol ac ystyried opsiynau eraill, ac roeddent yn awyddus i gael eu cynnwys ar gam cynharach yn y broses gyllidebol. Cafodd y Cynllun Corfforaethol drafft ei gyflwyno yn y cyfarfodydd craffu hyn hefyd cyn iddo gael ei fabwysiadu ar 27 Chwefror, sy'n golygu y bu'n rhaid i'r aelodau ddarllen a deall llawer o wybodaeth fanwl mewn byr amser.
- 88 Mae'r arweinyddiaeth bresennol wedi cydnabod bod angen ymgysylltu'n well ag aelodau, cymunedau lleol a defnyddwyr gwasanaethau ac mae cynlluniau ar waith i waith ymgysylltu ailddechrau o fis Ebrill 2014. Mae'r gwaith y mae'r Cyngor wedi'i wneud dros yr wyth mis diwethaf i wella gwybodaeth gyhoeddus am sut mae'n gwario ei arian, yn rhoi sylfaen gref i ddatblygu trefniadau ymhellach.

**Mae perygl mawr na chaiff y targedau arbed ar gyfer 2014-15 eu cyflawni ac mae'n annhebygol y caiff gofynion arbed tymor hwy eu bodloni os bydd y dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau yn parhau**

- 89 Ym mis Chwefror 2013, amcangyfrifodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig y byddai angen i'r Cyngor ddod o hyd i werth £27 miliwn o arbedion yn ei gyllideb ar gyfer 2014-15 ar sail y wybodaeth ddangosol ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru fel y nodwyd yn yr adroddiad cyllidebol. Yn dilyn cyllideb y Canghellor ym mis Mawrth 2013 a llythyr gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2013, roedd newidiadau dangosol i'r grant cynnal refeniw wedi golygu bod yr arbedion hyn wedi cynyddu i £33 miliwn erbyn mis Gorffennaf 2013, pan roedd y Cyngor yn paratoi ei strategaeth gyllidebol ar gyfer 2014-15. Ym mis Hydref 2013, pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Setliad Ariannol Dros Dro, roedd y lleihad gwirioneddol yn y grant cynnal refeniw dangosol yn golygu y byddai angen i'r Cyngor arbed tua £50 miliwn yn ystod 2014-15.
- 90 Cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2014-15 yw £585,288,000. Yn ymarferol, bu'n rhaid dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r £50 miliwn o arbedion gan ddefnyddio ffigur llawer is. Mae elfennau o'r cyllidebau addysg wedi'u dyrannu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, felly ni all y Cyngor ystyried defnyddio'r arian hwn at unrhyw ddiben arall nac er mwyn ei helpu i gyflawni

ei flaenoriaethau. Caiff elfennau o ofal cymdeithasol eu hamddiffyn hefyd. Mae'r Cyngor wedi nodi'r hyn a ddisgrifir ganddo fel cyllideb 'reoladwy' o oddeutu £250 miliwn y tynnir y rhan fwyaf o'r £50 miliwn o arbedion ohoni.

- 91 Mae'r Cyngor wedi llunio rhestr o'r arbedion arfaethedig i'w cyflawni yn ystod 2014-15 fesul cyfarwyddiaeth. Gwnaethom adolygu'r rhestr ym mis Mawrth 2014 ac roedd gennym bryderon am gyfran y cynigion y nodwyd eu bod ar gam gynllunio 'cyffredinol' yn hytrach na 'manwl' a'r cynigion i gynyddu incwm pan fo niferoedd staffio yn cael eu lleihau ar yr un pryd. Er ei bod yn glir bod cynlluniau'n cael eu gwneud i brynu gwasanaethau mewn ffordd wahanol, roedd yr amserlenni ar gyfer sicrhau'r arbedion a amcangyfrifwyd yn llai clir. Cydnabuwyd y risg hon ac mae trefniadau monitro agos wedi'u rhoi ar waith i olrhain cynnydd 'yn ystod y flwyddyn'.
- 92 Mae tîm cyllid y Cyngor yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau i olrhain arbedion gwirioneddol ac erbyn mis Ebrill 2014, dywedwyd bod y cynlluniau'n 'fanwl'. Mae trefniadau monitro wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf am fod yr arbedion arfaethedig yn cael eu holrhain nawr - cyn hyn, canolbwyntiwyd ar wariant o gymharu â'r gyllideb a ddyrannwyd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd rhyw £5.7 miliwn yn brin o'i darged ar gyfer 2013-14. O gofio faint o arbedion sydd i'w cyflawni, mae perygl mawr na fydd y Cyngor yn cyflawni'r arbedion arfaethedig yn 2014-15.



- 93 Yn y tymor hwy, mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn annhebygol o gyflawni'r arbedion sydd eu hangen drwy ei gyllideb 'reoladwy' am fod y gyllideb hon yn lleihau'n sylweddol o ganlyniad i'r pwysau presennol a'r ffaith bod disgwyl i'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol yn benodol gynyddu, gan roi mwy o bwysau ar gyllid. Er mwyn ymdopi â'r arian y mae'n debyg y bydd ganddo yn y dyfodol, mae'r Cyngor o'r farn bod yn rhaid iddo ailystyried y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, parhau i wneud gwelliannau a sicrhau effeithlonrwydd a chraffu mwy ar y cyllidebau a ddyrennir i feysydd a ddiogelir.

## Mae'r trefniadau adnoddau dynol corfforaethol yn seiliedig ar arfer cadarnhaol ond ni chânt eu rhoi ar waith yn gyson

- 94 Yn 2013-14, cyflogodd y Cyngor 11,677 o staff. Gwnaethom edrych ar ba mor dda roedd yn defnyddio'r adnodd sylweddol hwn drwy:
- adolygu trefniadau rheoli absenoldebau;
  - ystyried effeithiolrwydd trefniadau arfarnu a datblygu personol; a
  - mynd ar drywydd y cynnydd a nodwyd gennym yn 2012.
- 95 Yn yr adran hon, nodwn brif negeseuon ac argymhellion ein hadolygiadau. Rydym hefyd wedi rhoi adborth manylach i'r Cyngor.

### Mae trefniadau corfforaethol i reoli absenoldeb oherwydd salwch wedi gwella ond mae angen eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson

- 96 Ers 2011, mae'r Cyngor wedi ceisio rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn well. Yn 2011, lluniodd y Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad adroddiad a awgrymodd 19 o argymhellion y dylid eu mabwysiadu er mwyn rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn well. Tan yn ddiweddar, roedd y lefelau absenoldeb oherwydd salwch wedi aros yn weddol gyson uwchlaw targed y Cyngor o 10 diwrnod cyfwerth ag amser llawn o absenoldeb oherwydd salwch y flwyddyn. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael gan y Cyngor yn dangos gwelliant ond mae nifer o feysydd gwasanaeth, fel yr amgylchedd a gwasanaethau i blant, lle mae nifer y diwrnodau a gollir yn uchel o hyd.

Arddangosyn 10: Mae nifer y diwrnodau staff cyfwerth ag amser llawn a gollir bob blwyddyn yn sgil absenoldeb oherwydd salwch yn dechrau gwella

2011-12		2012-13		2013-14	
Targed	Nifer gwirioneddol	Targed	Nifer gwirioneddol	Targed	Nifer gwirioneddol
10 diwrnod	11.49 diwrnod	10 diwrnod	11.71 diwrnod	10 diwrnod	10.18 diwrnod

*Ffynhonnell: Adroddiadau perfformiad chwarter 4 Cyngor Caerdydd, mis Mawrth 2012 a mis Mawrth 2013: nid yw'r data wedi ei archwilio.*

- 97 Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau corfforaethol ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn seiliedig ar fodelau arfer gorau. Lansiodd y Cyngor Bolisi Presenoldeb a Lles newydd yn ystod haf 2013 a oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad craffu 2011. Mae'r Cyngor wedi diffinio camau allweddol i leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch ac wedi cyflwyno trefniadau cymorth ar gyfer rheolwyr. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys tîm canolog o gynghorwyr.
- 98 Gwnaethom gyfnewid â rheolwyr o sawl gwasanaeth gwahanol a nodwyd na chaiff trefniadau corfforaethol i reoli absenoldeb oherwydd salwch eu rhoi ar waith yn gyson gan wasanaethau. Mae rhai gwasanaethau wedi cymryd mesurau rhagweithiol i reoli absenoldeb oherwydd salwch, fel rhoi hyfforddiant ychwanegol i reolwyr neu gymryd mesurau ataliol fel defnyddio archwiliadau iechyd a brechiadau rhag y fflw. Fodd bynnag, ni chaiff rhai rheolwyr eu dwyn i gyfrif o fewn eu cyfarwyddiaethau am reoli absenoldeb oherwydd salwch.
- 99 Mae'r Cyngor wedi bod yn monitro absenoldeb oherwydd salwch yn gyffredinol yn ogystal â lefelau absenoldeb ymhob maes gwasanaeth. Nid yw wedi gwerthuso pa mor dda y caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith ac ni chaiff yr arferion cadarnhaol sydd i'w gweld mewn rhai meysydd gwasanaeth eu cofnodi na'u rhoi ar waith yn fwy cyffredinol.

### Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i adolygu perfformiad unigolion ond ni chaiff cyfleoedd hyfforddi a datblygu eu hintegreiddio'n llawn ag adolygiadau cyfarwyddiaethau

- 100 Mae gan y Cyngor system safonedig sy'n rheoli sut y dylai perfformiad unigolion gael ei asesu ar draws gwasanaethau a'i bwriad yw gwneud y broses yn hawdd ei defnyddio. Mae'r system yn cofnodi canlyniadau trafodaethau rhwng rheolwyr a staff ar amcanion, perfformiad ac anghenion datblygu. Ar y cyfan, mae'r ddau adolygiad disgwylidig y flwyddyn a'r cynnwys a awgrymir yn arfer cadarnhaol ar gyfer system rheoli perfformiad mewn sefydliad mawr.
- 101 Mae'r system yn disgwyl y caiff cysylltiadau eu llunio rhwng blaenoriaethau corfforaethol, targedau gwasanaethau ac amcanion unigolion fel bod unigolion yn deall yn glir sut y maent yn helpu i gyflawni amcanion corfforaethol ac amcanion eu gwasanaeth. Mae nodiadau canllaw cynhwysfawr ar gael i reolwyr a staff, sy'n hawdd ac yn syml eu defnyddio.
- 102 Darparwyd hyfforddiant i reolwyr gan Wasanaethau Pobl Adnoddau Dynol a gall rheolwyr unigol gael cymorth parhaus os nad ydynt yn sicr sut i ddefnyddio'r system. Felly, mae digon o gymorth a chyngor ar gael i reolwyr roi'r system ar waith.
- 103 Yn ogystal â chynnal arfarniadau, mae angen i gynghorau sicrhau bod staff yn barod ar gyfer eu rolau presennol ac i reoli galwadau yn y dyfodol. Ym mis Ionawr

2012, gwnaethom nodi: 'Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod ei staff yn deall y sail resymegol a'r ymagwedd at newid, a'u bod yn cael y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni newid a gwelliannau. 'Academi Cyngor Caerdydd' a ddatblygwyd drwy'r Rhaglen Trawsnewid Pobl ac Arweinyddiaeth yw'r cyfrwng sydd gan y Cyngor i fodloni'r angen hwnnw.'

104 Nod yr Academi yw sicrhau bod datblygiad pobl yn cael ei gynllunio mewn ffordd strategol ac effeithiol yn ogystal â darparu cyfleoedd dysgu a datblygu yng nghydestun trawsnewid a gwella gwasanaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae gan yr Academi nifer o ffrydiau gweithgarwch, rhai ohonynt yn arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ac eraill a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion y Cyngor ac unigolion wrth i'r broses drawsnewid fynd rhagddi.

105 Fel rhan o'n hadolygiad, gwnaethom ystyried a oedd yr Academi yn cyflawni'r diben a fwriadwyd. Er inni weld nifer o enghreifftiau da o gyfleoedd datblygu, nodwyd nad oedd cysylltiad da rhwng yr Academi a chynlluniau cyfarwyddiaethau:

- Yn ôl mewnwyd y Cyngor, mae'r Academi'n cynnwys holl gyfleoedd dysgu a datblygu'r Cyngor ond gwnaethom ganfod ei bod ond yn cynnwys y rhai a ddarperir drwy'r Academi ei hun ac nid y rhai a drefnir a/neu a ddarperir gan wasanaethau.
- Bwriad yr Academi oedd annog dull cydgysylltiedig o nodi anghenion datblygu gan ddefnyddio'r system arfarnu ynghyd

â fframwaith cymhwysedd (er mwyn nodi cyrsiau ar ba lefel sydd eu hangen). Ond nid oes ffyrdd o asesu a yw hyn yn gweithio'n ymarferol.

106 Yn 2012-13, gwariodd y Cyngor tua £4,600,000 ar hyfforddiant allanol. Mae'n ymddangos y gallai'r Cyngor ystyried ymhellach y trefniadau hyfforddi presennol er mwyn gweld a oes modd gwneud arbedion.

### Nid yw gwaith cynllunio'r gweithlu yn cyd-fynd ag ymdrechion i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor

107 Nid oes gan y Cyngor strategaeth gweithlu. Nid yw ei gynlluniau cyflawni gwasanaethau wedi'u llunio yng nghydestun yr her ariannol bresennol ac nid yw ei system rheoli perfformiad yn seiliedig ar safonau cyflawni clir. Felly, mae'r 'conglfeini' ar gyfer strategaeth gweithlu yn absennol.

108 Mae'r Cyngor wedi defnyddio diswyddiadau gwirfoddol ac wedi dileu swyddi er mwyn lleihau ei gostau. Mae ganddo broses ar gyfer ystyried ceisiadau am ddiswyddiadau gwirfoddol sy'n golygu bod yn rhaid dangos y gall y gwaith sy'n gysylltiedig â'r swydd gael ei wneud gan eraill fel rhan o swyddi sy'n bodoli eisoes neu fel cyfle datblygu. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cymharu sgiliau/profiad yr aelodau staff hynny sydd am adael ond nad yw eu ceisiadau am ddiswyddiadau gwirfoddol wedi cael eu cymeradwyo eto, â'r staff yn y gronfa adleoli nad ydynt am adael.

## Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd gwell o dechnoleg gwybodaeth a'i drefniadau rheoli gwybodaeth

### Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd gwell o dechnoleg gwybodaeth

109 Yn 2009, ymrwymodd y Cyngor i bartneriaeth TG strategol hirdymor am 15 mlynedd gyda TATA Consultancy Services (TCS). Nod y bartneriaeth oedd cyflymu proses drawsnewid y Cyngor er mwyn gwella gwasanaethau a sicrhau effeithlonrwydd. Mae'r bartneriaeth strategol hon yn ei phumed blwyddyn ac mae ganddi dorwyt ym mis Tachwedd 2014. Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried dyfodol y trefniant hwn.

110 Er y bu rhywfaint o gynnydd yn ystod 2013-14, mae'r Cyngor ar ei hôl hi, mewn rhai ffyrdd, o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru o ran cynnal mentrau newydd sy'n defnyddio technoleg i foderneiddio a gwella gwasanaethau er mwyn helpu i drawsnewid busnes.

111 Cwblhaodd y Cyngor waith i ailstrwythuro ei wasanaeth TGCh yn ddiweddar ac mae wrthi'n diwygio ei drefniadau i ddatblygu, defnyddio a chefnogi technoleg. Ceir rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gallai'r newidiadau hyn gefnogi gwelliant parhaus:

- Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r prif gamau y mae angen eu cymryd er mwyn gwella ei drefniadau i sicrhau bod adnoddau technegol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.
- Adeg yr asesiad hwn, roedd Pennaeth y Gwasanaeth TGCh yn ailddrafftio strategaeth TGCh y Cyngor. Dylai'r

strategaeth TGCh newydd gyd-fynd â Strategaeth TGCh Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ac mae ganddi'r potensial i lywio gwelliannau er ei bod yn cael ei datblygu o hyd ac nad yw wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn.

112 Ymhlith y newidiadau arfaethedig a diweddar mae:

- O 1 Ebrill mae System Rheoli Cofnodion a Dogfennau Electronig newydd y Cyngor, SharePoint 2010, yn cael ei sefydlu.
- Bydd cam cyntaf system Rheoli Cydberthnasau â Chwsmeriaid newydd yn 2014-15 yn disodli C2C gan ddatblygu un darlun o wasanaethau cwsmeriaid. Bydd y system hon yn rhoi mwy o opsiynau i ddinasyddion a gallant gael gafael ar wasanaethau'n haws.
- Cafodd trefniadau amserlennu gwaith symudol eu treialu ar ddechrau 2014 ym maes Cynnal a Chadw Cymunedol ac yna, yn 2014-15, ym maes priffydd, ysgolion, parciau a thrafnidiaeth/fflyd a gwasanaethau i oedolion. Y nod yw cyflymu'r broses o archebu a chwblhau gwaith fel bod gwasanaethau'n fwy ymatebol i denantiaid a chleientiaid eraill.
- Gwelliannau i wefan y Cyngor o fis Ebrill 2014 mewn ymateb i raddau gwael gan safonau proffesiynol ac er mwyn gwella opsiynau 'hunanwasanaeth' i ddefnyddwyr.

**Mae'r Cyngor wedi gweithredu mewn ymateb i'r hysbysiad ymgymeriad o dan y Ddeddf Diogelu Data a wnaed gan y Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Awst 2013**

- 113 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi wynebu cyfres o gwynion am yr amser y mae'n ei gymryd i ymateb i geisiadau am wybodaeth. Adolygodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drefniadau'r Cyngor i brosesu ceisiadau a'i gydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf Diogelu Data yn gyffredinol. Ym mis Awst 2013, canfu'r Comisiynydd Gwybodaeth fod methiannau systematig yn nhrefniadau'r Cyngor a chyhoeddodd 'hysbysiad ymgymeriad' a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i reolwr data'r Cyngor brosesu data personol yn unol â gofynion deddfwriaethol.
- 114 Ers mis Awst 2013, mae'r Cyngor wedi drafftio Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth a Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yr oedd disgwyl i'r Cabinet eu cymeradwyo ar adeg yr asesiad hwn.

## Nid yw'r Cyngor yn rheoli ei asedau tir nac eiddo yn dda

- 115 Dywedodd adroddiad i'r Cabinet yn 2013 fod y Cyngor yn berchen ar neu fod ganddo fuddiant mewn ystad eiddo fawr â gwerth defnydd presennol o oddeutu £1 biliwn. Roedd hyn yn cynnwys 523 o adeiladau gweithredol a oedd yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Ar ôl costau staffio, gwariant ar yr ystad weithredol yw'r baich mwyaf ar gyllideb referniw'r Cyngor. Ar hyn o bryd, mae'n costio tua £48 miliwn y flwyddyn i gynnal yr eiddo ac mae gwerth bron £100 miliwn o waith cynnal a chadw wedi'i ôl-gronni.
- 116 Yn 2010, ar ôl cynnal asesiad manwl o drefniadau rheoli asedau'r Cyngor, gwnaethom nodi bod y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau nad oedd yn cynnwys cynlluniau na strategaethau digon cadarn i'w alluogi i reoli eiddo'n effeithiol ac nad oedd fframwaith ar gael i'w gefnogi.
- 117 Gan fod rheoli asedau yn bwysig, gwnaethom adolygu cynnydd yn 2011. Nodwyd bod cynnydd da wedi'i wneud ar ôl penodi Rheolwr Ystadau ac Eiddo Corfforaethol a defnyddio dull corfforaethol o wneud penderfyniadau am sut i ddefnyddio asedau eiddo'r Cyngor. Roedd angen o hyd i'r Cyngor wella'r wybodaeth a oedd ar gael i asesu a oedd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ond roedd wedi cydnabod hyn ac roedd yn gwybod pa gamau i'w cymryd nesaf.
- 118 Yn 2013, fodd bynnag, nodwyd bod cynnydd wedi arafu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac nad oedd trefniadau'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Canfu'r Adolygiad Cymheiriaid hefyd fod daliadau eiddo presennol y Cyngor yn sylweddol a bod ganddo gynlluniau i'w gwneud yn fwy effeithlon ond nad oedd y Swyddogion y cyfwelwyd â hwy wedi mynegi'r ymdeimlad o frys disgwylidig. Nododd hefyd fod y rhaglen hon yn cynnig arbedion referniw byrdymor a derbyniadau cyfalaf tymor hwy.
- 119 Yn ystod ein hasesiad, nodwyd bod y cyfrifoldeb am reoli ystadau corfforaethol wedi'i drosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd. Er ei fod yn glir ynglŷn â'r materion a oedd ar ôl i'w trin, nid oedd gan y Cyngor strategaeth i gyflawni uchelgeisiau ei Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Mae'r *Cynllun Gwella Corfforaethol diweddaraf ar gyfer 2014-2017* yn nodi'r ymrwymadau o ran Adnoddau a Datblygu Economaidd i ystyried ffyrdd newydd o weithio, sy'n cynnwys datblygu Strategaeth Eiddo newydd.
- 120 Gwnaethom hefyd nodi nifer o ffactorau y bydd angen i'r arweinyddiaeth newydd fynd i'r afael â hwy er mwyn sefydlu diwylliant sy'n ystyried eiddo yn ased gorfforaethol yn hytrach nag ased gwasanaeth:
- Cafodd Bwrdd Rheoli Asedau ei sefydlu fel prif fforwm i uwch swyddogion wneud pob penderfyniad ynglŷn ag eiddo. Fodd bynnag, nid oedd y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth sy'n

berchen ar eiddo, nid oedd y trefniadau adrodd yn glir ac nid yw wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2013.

- Mae amrywiaeth o systemau gwybodaeth am reoli eiddo ar waith o fewn y Cyngor nad ydynt yn ddigon cydgysylltiedig ac nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad uniongyrchol â gwybodaeth ariannol. Bydd y ffaith nad oes gwybodaeth gywir a hygyrch ar gael am yr ystad eiddo yn amharu ar brosesau corfforaethol i oruchwylio perfformiad eiddo, trefniadau rheoli risg effeithiol a'r gallu i wneud penderfyniadau hyddysg ac amserol.



## Mae'r Cyngor yn cydweithio'n dda ag eraill a gall ddangos bod y canlyniadau i ddinasyddion wedi gwella

121 Mae'r Cyngor yn gweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol gydag amrywiaeth o bartneriaid allanol. Gwnaethom chwilio am eglurder ynghylch diben cydweithredu a ph'un a oedd yr hyn a gyflawnwyd yn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig. Er mwyn llunio barn, gwnaethom edrych ar sampl o'r gweithgareddau y mae'r Cyngor yn cymryd rhan ynddynt.

### Mae canlyniadau gwell yn cael eu cyflawni drwy waith Bwrdd Partneriaeth Caerdydd

122 Yn 2009, dechreuodd y Cyngor weithio gyda phartneriaid statudol a gwirfoddol allweddol, fel yr heddlu, y wasanaeth tân ac achub, y bwrdd iechyd a Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd, er mwyn datblygu strategaeth integredig sengl i gyflawni cyfrifoldebau statudol y partneriaid unigol a rhoi strwythur i gyflawni eu hamcanion ar y cyd. Yn ystod 2010, datblygodd y partneriaid y ffyrdd yr oeddent yn bwriadu gwerthuso effaith yr hyn roeddent yn ei wneud. Gwnaethant gynnal asesiad anghenion strategol a, rhwng mis Mawrth 2010 a mis Mawrth 2011, cynhaliwyd ymgynghoriad manwl i ganfod beth oedd yn bwysig i ddinasyddion a busnesau. Arweiniodd hyn at gyhoeddi *Beth sy'n Bwysig 2010:2020 - Y Strategaeth 10 Mlynedd*<sup>4</sup> (*Beth sy'n Bwysig*) ar gyfer Caerdydd sy'n rhoi ffocws i weithgareddau'r bartneriaeth.

123 Mae Bwrdd Partneriaeth Caerdydd, sy'n cynnwys pobl mewn uwch swyddi o sefydliadau partner, yn goruchwyllo'r gweithgareddau a gynhelir drwy dimau cymdogaeth a rhaglenni penodol (fel Teuluoedd a Phobl Ifanc). Mae'r timau cymdogaeth a'r rhaglenni yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr asesiad anghenion gwreiddiol. Daw'r arweinyddiaeth strategol gan Grŵp Arwain Caerdydd sy'n cynnwys aelodau o'r sefydliadau partner ac aelodau etholedig. Mae'r grŵp hwn yn llywio gwaith partneriaeth ac yn ystyried y ffrydiau rhaglenni a gwaith drwy adolygu materion yn barhaus.

124 O'r cychwyn, sefydlodd *Beth sy'n Bwysig* yr egwyddor y câi llwyddiant ei werthuso ar sail y canlyniadau a gyflawnir. Mae proses adolygu strwythuredig ar waith ar lefel cymdogaeth a rhaglen, a lluniwyd adroddiadau blynyddol ar gyfer 2011-12 a 2012-13. Mae'r rhain yn adrodd ar saith amcan allweddol *Beth sy'n Bwysig* gan nodi faint o waith sydd wedi'i wneud, pa mor dda y gwnaed hynny ac a oes unrhyw un yn well eu byd o ganlyniad i hynny. Mae'r adroddiadau yn nodi bod cynnydd cyffredinol yn cael ei wneud o ran dulliau gweithredu partneriaid a mireinio systemau adrodd. Maent hefyd yn nodi llwyddiannau a heriau parhaus.

<sup>4</sup> Mae *Beth sy'n Bwysig 2010-2020 – Y Strategaeth 10 Mlynedd* yn strategaeth 10 mlynedd gyffredinol a ddatblygwyd gan amrywiaeth o bartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'n canolbwyntio ar gyflawni saith canlyniad strategol allweddol sy'n anelu at wella ansawdd bywyd dinasyddion.

125 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i weithio mewn partneriaeth yn ei Gynllun Corfforaethol diweddar ac mae cynlluniau cyflawni gwasanaethau yn cael eu datblygu a fydd yn cynnwys gweithgareddau cysylltiedig. Mae'r Cyngor hefyd yn helpu i ddatblygu'r bartneriaeth ymhellach. Mae wedi ymateb yn gadarnhaol i adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013 a oedd wedi adolygu'r trefniadau a oedd ar waith ac wedi nodi cyfleoedd posibl i ddatblygu'r bartneriaeth yn ogystal â chydweithio o bosibl â Bwrdd Gwasanaethau Lleol cyfagos Bro Morgannwg.

**Mae gwasanaethau rheoli cymdogaethau yn ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau lleol ac mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau cydweithredu ar draws ei wasanaethau**

126 Gweithio mewn cymdogaethau yw un o'r prif ffyrdd y caiff yr anghenion a nodwyd yn *Beth sy'n Bwysig* eu diwallu ar lefel leol. Ceir chwe thîm cymdogaeth sy'n cynnwys pobl sy'n gweithio i nifer o sefydliadau gwahanol ac sydd wedi cael eu dwyn ynghyd â'r diben cyffredin o geisio dod o hyd i atebion i broblemau lleol.

127 Ers 2011, rydym wedi bod yn monitro cynnydd ar lefel cymdogaeth, gan adrodd yn gyntaf ym mis Ionawr 2012 ar y cynlluniau a oedd yn cael eu rhoi ar waith ac wedyn ym mis Gorffennaf 2013 ar y canlyniadau a gyflawnir.

128 Ym mis Gorffennaf 2013, gwnaethom gydnabod bod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd a daethom i'r casgliad ei fod, drwy gydweithio â phartneriaid, yn ymgysylltu â dinasyddion er mwyn nodi blaenoriaethau lleol ac yn cefnogi cynlluniau sy'n cyflawni gwelliannau ond bod angen iddo ddatblygu cynaliadwyedd trefniadau a systemau rheoli perfformiad ymhellach.'

129 Roedd trefniadau rheoli cymdogaeth yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â dinasyddion ac yn eu cynnwys yn effeithiol wrth nodi materion pwysig a mynd i'r afael â nhw. Roedd y partneriaid yn defnyddio amrywiaeth o brosesau ymgysylltu i gael barn pobl leol - o'r rhai a oedd yn dal i fod yn yr ysgol a'u rhieni i bobl hŷn yn y gymuned. Roedd hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o broblemau ac wedi annog cymunedau i helpu i ddatblygu atebion fel:

- gwella goleuadau stryd mewn ardaloedd risg allweddol; a
- chynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliadau partner yn ogystal â gwasanaethau'r Cyngor ar lefel leol.

130 Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn arwain at welliannau mewn cymunedau ond nid oes dull cyson o reoli cymdogaethau ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac mae cynaliadwyedd yn broblem. O fewn y timau cymdogaeth, gwelsom fod ymrwymiad cryf i weithio ar draws ffiniau asiantaethau er mwyn datrys problemau lleol. Ar yr un pryd, cydnabuwyd bod llwyddiant yn seiliedig ar ymrwymiad unigolion penodol ac nad oedd rhai o wasanaethau pwysig y Cyngor,

gan gynnwys addysg, rheoli gwastraff a pharciau, yn cyfrannu'n llawn at y gwaith. Mae'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli wedi cymryd y camau cyntaf i fynd i'r afael â hyn drwy benodi cyfarwyddwyr i arwain pob cymdogaeth, a fydd yn gyfrifol am hyrwyddo dull cydweithredol o weithio ar draws y Cyngor.

- 131 Adeg ein hadolygiad ym mis Gorffennaf 2013, roedd y swyddi gwag o fewn strwythurau staffio a newidiadau personél wedi peri inni ddod i'r casgliad bod cynaliadwyedd gwaith mewn cymdogaethau yn broblem. Ers hynny, cwblhawyd y prosesau recriwtio i'r strwythur uwch reoli ac mae'r Cyngor wedi ailddatgan ei ymrwymiad i weithio mewn cymdogaethau. Mae wedi parhau i ddatblygu 'canolfannau cymunedol' fel manau i gysylltu â dinasyddion ac fel canolfannau i gydleoli gwasanaethau.

### Mae partneriaeth hirsefydledig â Chyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cydgysylltu gweithgareddau i wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau

- 132 Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i fynd i'r afael ag ystod o faterion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol:
- Mae'r tri sefydliad wedi lleihau eu costau unigol drwy benodi un rheolwr ar gyfer gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu.

- Mae'r tri sefydliad yn cydgysylltu gweithgareddau ac yn datblygu gwasanaethau newydd er mwyn lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty i'r gymuned. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu gwasanaeth ailalluogi sy'n helpu unigolion i fyw'n annibynnol (nid oedd angen i 60 y cant o'r achosion a gafodd gymorth i ddechrau fynd ymlaen i gael gofal pellach) a chydweithio'n agos â gwasanaethau tai er mwyn sicrhau bod mwy o dai a gofal ar gael i helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol.
- Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol y Fro, wedi sefydlu bwrdd cynllunio amlddisgyblaethol i gydgyssylltu gweithgareddau gwasanaethau gan leihau amseroedd aros am wasanaethau i bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac alcohol.

### Mae'r Cyngor yn parhau i ystyried cyfleoedd i gydweithredu fel ffordd o gyflawni ei amcanion ac yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau presennol

- 133 Mae'r Cyngor wedi cydnabod na all barhau i ddarparu pob gwasanaeth yn yr un modd ag y mae wedi gwneud yn y gorffennol ac mae'n datblygu gweledigaeth o Gaerdydd fel cyngor cydweithredol sy'n defnyddio ffordd newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r gymuned fusnes drwy Gyngor Busnes Caerdydd ac mae'n rhoi arian i sefydlu busnesau newydd. Mae hefyd yn rhoi blaenoriaeth i ystyried yr opsiynau sydd ar

gael i ddarparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden yn y Cynllun Datblygu Sefydliadol.

- 134 Mae cynghorau yng Nghymru yn wynebu agenda heriol - lleihau faint o wastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi. Bydd methiant i gyflawni'r targedau a osodwyd gan Llywodraeth Cymru yn arwain at gosbau ariannol sylweddol. Partneriaeth rhwng y Cyngor a chynghorau Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg yw Prosiect Gwyrdd. Ei ddiben yw sefydlu cyfleuster tymor canolig/tymor hir i drin gwastraff na ellir ei ailgylchu na'i gompostio. Yn 2007, sefydlwyd trefniadau llywodraethu a chraffu penodol i lywio'r prosiect a oedd yn cynnwys rheoli lefel uchel o ddiddordeb cyhoeddus a phroses a oedd yn dod o dan reoliadau caffael cyhoeddus a gofynion i drin gwybodaeth fasnachol sensitif yn gyfrinachol. Ar adeg ysgrifennu, roedd y cyfleuster yn cael ei ddatblygu yng Nghaerdydd. Ar ôl cwblhau'r cam caffael, mae trefniadau i adolygu camau cyflawni yn cael eu datblygu.
- 135 Ym mis Medi 2012, mewn ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru, sefydlwyd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd newydd er mwyn darparu gwasanaeth cymorth i ysgolion yng nghynghorau Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf. Mae trefniant tebyg ar waith ledled Cymru ac rydym yn bwriadu cynnal adolygiad cenedlaethol o effeithiolrwydd y trefniadau yn ystod 2014-15. Mae'r Cyngor yn asesu cryfder trefniadau mewn perthynas ag ansawdd gwasanaethau, llywodraethu ac atebolrwydd clir.

# Atodiadau

## Atodiad 1

### Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

## Atodiad 2

### Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerdydd a Chyngor Caerdydd

#### Y Cyngor

Roedd y Cyngor wedi cyllidebu gwariant refeniw gros o tua £790.6 miliwn ar gyfer 2013-14. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,288 fesul trigolyn. Tua £103.7 miliwn oedd cyllideb gyfalaf y Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Yn 2012-13 a 2013-14, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £937 y flwyddyn. Mae tua 58 y cant o dai yn y bandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 45 Llafur
- 15 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 7 o'r Blaid Geidwadol
- 4 Aelod Annibynnol
- 2 o Blaid Cymru
- Un o Blaid Annibynnol y Mynydd Bychan
- Un o Blaid Annibynnol Llanrhymni

Paul Orders yw Prif Weithredwr y Cyngor. Cyfarwyddwyr y Cyngor yw'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol: Christine Salter; Addysg a Dysgu Gydol Oes: Nick Batchelor; Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant: Chris Hesse; Gwasanaethau Plant: Tony Young; Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Siân Walker; Yr Amgylchedd: Jane Forshaw; Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth: Andrew Gregory; Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid: Sarah McGill; Datblygu Economaidd: Neil Hanratty; Cyfreithiwr y Sir: Shaun Jamieson; a Chlerc y Sir a'r Swyddog Monitro: Marie Rosenthal.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Gaerdydd yw:

- Julie Morgan, Gogledd Caerdydd, Llafur
- Mark Drakeford, Gorllewin Caerdydd, Llafur
- Vaughan Gething, De Caerdydd a Phenarth, Llafur
- Jenny Rathbone, Canol Caerdydd, Llafur
- Eluned Parrott, Canol De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Leanne Wood, Canol De Cymru, Plaid Cymru
- David Melding, Canol De Cymru, Plaid Geidwadol Cymru
- Andrew R T Davies, Canol De Cymru, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Gaerdydd yw:

- Kevin Brennan, Gorllewin Caerdydd, Llafur
- Stephen Doughty, De Caerdydd a Phenarth, Llafur (Cydweithredol)
- Jonathan Evans, Gogledd Caerdydd, Ceidwadwr
- Jenny Willott, Canol Caerdydd, Democrat Rhyddfrydol

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor ei hun yn [www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk) neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.  
Ffôn: 029 2087 2088 (Cymraeg) neu 029 2087 2087 (Saesneg), neu e-bost [C2C@cardiff.gov.uk](mailto:C2C@cardiff.gov.uk).

## Atodiad 3

### Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cyngorydd Heather Joyce  
Arweinydd  
Cyngor Caerdydd  
Neuadd y Sir  
Glanfa'r Iwerydd  
Caerdydd  
CF10 4UQ

Annwyl Gyngorydd Joyce

#### Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.



Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamedig ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 16 a 26 Medi yn y drefn honno, a chyflwynir adroddiad manylach i swyddogion maes o law.

Yn gyffredinol, roedd y datganiad cyfrifon a'r papurau gwaith cysylltiedig a gyflwynwyd i'w harchwilio o safon dda, er ei bod yn siomedig nad oedd cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau gwell, a roddwyd ar waith y llynedd er mwyn cefnogi balansau dyledwyr a chredydwyr, mor effeithiol eleni.

Roedd y datganiad cyfrifon hefyd yn cynnwys camddatganiad nas cywirwyd o £9 miliwn mewn perthynas â grant i ddechrau rhaglen ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif yn gynnar. Ar ôl trafod â'r Cyngor, cefnogodd yr aelodau gynnig y swyddogion i beidio â diwygio'r balans hwn a nodwyd y penderfyniad hwn yn y llythyr sylwadau. Er nad oedd hwn yn berthnasol i'r cyfrifon ac na chafodd effaith, felly, ar fy marn, mae'n bwysig bod y Cyngor yn sicrhau, os bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi grantiau mewn ffordd debyg yn y dyfodol, ei fod yn dilyn y broses gymeradwyo gywir er mwyn atal y sefyllfa hon rhag digwydd eto.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Ar y cyfan, rwy'n fodlon nad oes unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar y farn archwilio ddiamedig a roddwyd ar ddatganiadau cyfrifon 2012-13. Fodd bynnag, cafodd nifer o faterion eu codi gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiadau i'r Cabinet ar 10 Hydref 2013 y mae angen gweithredu arnynt ar frys er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur yn well. Y prif argymhellion oedd bod angen pennu blaenoriaethau gwella clir, gwella trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd yn glir ar ganlyniadau'r gwaith a wneir. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar gynnydd y Cyngor mewn perthynas â'r argymhellion hyn a'i ymateb i adolygiad cymheiriaid diweddar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn ystod chwarter cyntaf 2014.

Bydd y sefyllfa ariannol hynod heriol sy'n wynebu pob corff llywodraeth leol yng Nghymru yn dilyn y setliad cyllidebol diweddar hefyd yn golygu y bydd angen ailystyried a diweddarau cynllun ariannol tymor canolog y Cyngor er mwyn adlewyrchu'r arbedion ychwanegol y mae angen eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf.

Cydnabyddir bod gan y Cyngor drefniadau da o ran cynllunio ariannol a rheoli'r gyllideb yn gyffredinol a'i fod yn cynyddu capasiti o ran uwch reolwyr. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo ystyried gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau ac y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cau'r bwch ariannol. Mae'n bwysig bod y cynllun ariannol tymor canolog yn cael ei fonitro'n fanwl a'i fod yn cysylltu'n glir â chynlluniau arbed corfforaethol a chyfarwyddiaethau, cynlluniau cyflawni gwasanaethau ac ati, a bod unrhyw lithriant yn cael ei drin yn gyflym ac yn effeithiol er mwyn cyflawni targedau arbed. Mae cyfnod heriol yn wynebu Aelodau a Swyddogion.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'AJ Barrett'.

**Anthony Barrett**  
**Archwilydd Penodedig**

28 Hydref 2013

## Atodiad 4

### Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Caerdydd

#### Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 mewn adroddiad i'r Cabinet ar 10 Hydref 2013, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn [www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk). Maent fel a ganlyn:

Amcanion gwella Cyngor Caerdydd 2012-13	Amcanion gwella Cyngor Caerdydd 2013-14
Mae pobl Caerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel	Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffyniannus a llewyrchus	Gwella deilliannau addysgol
Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu potensial i'r eithaf	Cynyddu lefelau presenoldeb mewn ysgolion
Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo	Cynyddu annibyniaeth drwy ddarparu cymhorthion a gwneud addasiadau i dai
Mae gan bobl Caerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy	Helpu pobl i wneud dewisiadau cadarnhaol am fforddiadwyedd eu llety
Mae pobl Caerdydd yn iach	Sefydlu Caerdydd yn ddinas ddigidol
Mae cymdeithas Caerdydd yn un deg, cyfiawn a chynhwysol	Cynyddu nifer ac ansawdd y swyddi yn economi'r ddinas
Mae'r Cyngor yn cyflawni canlyniadau gwell i'r ddinas a'i dinasyddion drwy bartneriaethau cryf a ffyrdd newydd ac arloesol o weithio	

#### Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13, *Adroddiad Gwella Cyngor Caerdydd 2012/13*, ar wefan y Cyngor yn [www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk).

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)